

Cynefino Gyda Hanes Cymru

Mari Elin Wiliam
Lowri Ann Rees
Leona Huey



Cynefino Gyda Hanes Cymru

Llun: Baner Cymru, [Assets Wales](#). © Crown Copyright

Cyhoeddwyd y llyfr/e-lyfr hwn gyntaf yn 2026 gan:

Y Coleg Cymraeg Cenedlaethol, Y Llwyfan, Heol y Coleg, Caerfyrddin, SA313WQ
www.colegcymraeg.ac.uk

Hawlfraint: Yr Awduron

ISBN: 978-1-5262-1078-4

Mae hawlfraint ar gynnwys yr e-lyfr hwn ac mae'n anghyfreithlon atgynhychu unrhyw ran ohono heb gytundeb ysgrifenedig y cyhoeddwr ymlaen llaw.

Dylunio a chysodi: Dylunio Gringo/ www.gringodesign.co.uk

Diolchiadau

Y Coleg Cymraeg Cenedlaethol am gefnogaeth a nawdd.

Ysbyrdoliaeth gan Dr Cynog Prys a Dr Rhian Hodges, Prifysgol Bangor.

Nia Lynn Jones, Prifysgol Bangor, am ei harweiniad i'r Cwricwlwm i Gymru.

Justin Davies, Gringo Design.



Croeso

Bwriad *Cynefino* gyda *Hanes Cymru* ydy dangos sut y gellir plethu enghreifftiau o orffennol Cymru gyda phynciau dadlennol megis hunaniaeth, ethnigrwydd a threftadaeth byd-eang. Gwneir hyn o dan ysbrydoliaeth y *Cwricwlwm i Gymru* (2021), sydd yn nodi ar gyfer y Dyniaethau: 'Drwy glywed straeon eu hardal leol a straeon Cymru yn gyson, yn ogystal â straeon y byd ehangach, gall dysgwyr ddatblygu dealltwriaeth o natur gymhleth, lluosieithog ac amrywiol cymunedau ddoe a heddiw.' Anelwn i arfogi athrawon, disgyblion, myfyrwyr, yn wir, unrhyw un â diddordeb yn y gorffennol, am sut i ddefnyddio hanesion o gynefinoedd amrywiol yng Nghymru i ddeall themâu traws-genedlaethol.

I gyflawni hyn, mae'r *Llawlyfr* wedi'i ddsbarthu i bedair pennod, gyda'r archaeolegydd a'r arbenigwr treftadaeth, Dr Leona Huey, yn edrych ar Hunaniaeth a Threftadaeth ym Mhennod 1; yr hanesydd Dr Lowri Ann Rees yn trafod y clymau rhwng Cymru a'r Byd ym Mhennod 2 a Dr Mari Elin Wiliam yn rhoi golwg ar hanes Cymru o bersbectif Amrywedd (rhywedd, rhywioldeb a hîl) ym Mhennod 3. Ym Mhennod 4 mae Lowri a Mari yn gosod canllawiau am sut y gall pawb fynd ati i astudio hanes lleol trwy ddefnyddio archifau, hanes llafar, gwrthrychau a'r tirlun, gan hefyd roi gorolwg ar y modd mae'r dyniaethau digidol yn ein helpu i ganfod dirgelion y gorffennol.

Mae pob pennod yn canolbwyntio ar roi cyflwyniad cyffredinol i'r pwnc cyn ymhelaethu mewn astudiaethau achos manwl. Y tu hwnt i hynny, mae arddull y penodau'n amrywio, ac yn adlewyrchu ymdriniaethau eu hawduron o'u meysydd ac arbenigeddau gwahanol.

Mae hanes a threftadaeth Cymru wedi'n hysbrydoli ni'n fawr, felly gobeithio y gwnewch fwynhau'r enghreifftiau yn y *Llawlyfr* ac y bydd y gorffennol Cymreig yn parhau o ddiddordeb i chi am flynyddoedd i ddod.

Mari, Lowri a Leona, Prifysgol Bangor.

Cynnwys

Pennod 1: Hanes Cymru, Hunaniaeth a Threftadaeth
Leona Huey

5

Pennod 2: Hanes Cymru a'r Byd
Lowri Ann Rees

27

Pennod 3: Hanes Cymru ac Amrywedd
Mari Elin Wiliam

40

Pennod 4: Hanes Cymru a'ch Hanes Chi
Lowri Ann Rees a Mari Elin Wiliam

52

Llun: Gwisg Traddodiadol. [Assets Wales](#). © Crown Copyright



PENNOD 1

Hanes Cymru, Hunaniaeth a Threftadaeth

Hanes Cymru, Hunaniaeth a Threftadaeth

Leona Huey

Gorolwg

Mae hunaniaeth (*identity*) yn gysyniad cymhleth, amlochrog a hyblyg a gellir ei gymhwyso i unigolyn neu i grŵp. Yn ei hanfod cyfeiria at y ffordd y mae pobl yn gweld eu hunain a sut mae eraill yn eu canfod. Chwaraea treftadaeth (*heritage*) ran holl bwysig wrth ffurfio hunaniaeth, yn enwedig ar gyfer hunaniaeth grŵp, gan greu syniad am orffennol a phresennol sy'n cael ei rannu ymysg criw o bobl. Golyga hyn wahaniaethu un grŵp oddi wrth grŵp arall ym meddwl y canfyddwr. Gall y dreftadaeth a ddefnyddir fel sylfaen i hunaniaeth fod yn ddiriaethol (*tangible*) - sef rhywbeth ffisegol fel tirwedd, fflagiau, llwyau caru - neu yn anniriaethol (*intangible*), rhywbeth na allwn ei weld, megis iaith, caneuon, a thraddodiadau llafar.

Treftadaeth Ddiriaethol	Treftadaeth Anniriaethol
Tirweddau; adeiladau; henebion; pobl; gwrthrychau diwylliannol; gwisg genedlaethol; bwyd.	Hanes; gwleidyddiaeth; iaith; dawn; chwaraeon; llên gwerin; sgiliau a chrefftiau; traddodiadau.

Efallai na fydd yr hyn sy'n rhan o hunaniaeth un person yn rhan o ffurfiant unigolyn arall. Er enghraifft, gall yr iaith Gymraeg fod yn ganolog i hunaniaeth Gymreig un person, ond na fydd yn ffactor o gwbl i Gymreictod unigolyn arall.

Mae hanes cenedl yn ganolog i hunaniaeth genedlaethol, gan greu ymdeimlad o orffennol a rennir hyd yn oed os yw'r cysylltiadau â 'hynafiaid' (*ancestors*) yn gymharol ddiweddar. Yn ddiddorol, nid oes angen i'r canfyddiad yma o hanes a rennir o reidrwydd fod yn seiliedig ar wirionedd, ond gall fod yn seiliedig ar fyth, chwedl a chamsyniad cyffredinol am hanes: y peth sy'n allweddol yw ei fod yn gweithredu fel gwahanfa oddi wrth genhedloedd a diwylliannau eraill. Daw felly'n ffaith 'ddiwylliannol' yn hytrach nac yn hanes realistig.

Mae cynefin yn mynd y tu hwnt i hunaniaeth yr unigolyn i gwmpasu hunaniaeth gymunedol. Mae'r bobl sy'n byw mewn lle penodol yn rhannu nid yn unig agosatrywydd corfforol, ond hefyd profiadau a rennir o'r amgylchedd hwnnw a'i hanes. Mae eu cof torfol, eu traddodiadau a'u ffyrdd o fyw i gyd yn cael eu siapia gan eu hamgylchedd presennol a hanesyddol. Mae deall treftadaeth a'r dirwedd yn ganolog i ni yn yr 21ain ganrif ddadansoddi'n cysylltiad â llyfdd penodol ac yn cynnig cipolwg ar sut mae cymunedau'n profi parhad a newid yn eu hunaniaethau.

Mae'r astudiaethau achos a archwilir yma yn dangos sut mae treftadaeth ddiwylliannol a hunaniaeth yn rhyng-gysylltiedig ac yn rhyngddibynnol mewn enghreifftiau sy'n cynnwys diwylliant materol (*material culture*) a'r tirlun.



Y wisg Genedlaethol Gymreig

Un o symbolau mwyaf eiconig diwylliant a hunaniaeth Gymreig yw'r wisg draddodiadol Gymreig. Yr het sidan dal, y siôl a'r gŵn gwely oedd yr elfennau mwyaf nodedig o'r ffasiwn, a gâi ei gwisgo'n eang ledled Ewrop yn y 18fed ganrif. Nid yw'n glir pam yn union fod y steil mor amlwg yng Nghymru i mewn i Oes Fictoria, ond yn gyflym daeth yn symbol o hunaniaeth Gymreig.

Roedd amrywiadau rhanbarthol o ran gwisg ac mae tystiolaeth o'r rhain wedi goroesi, er, yn drawiadol, cofnodwyd hwy'n bennaf gan ddynion o Loegr yn hytrach na merched o Gymru. Mae'r rhan fwyaf o ddisgrifiadau a ffotograffau yn cyfleu gwragedd a merched fferm breintiedig yn gwisgo'u dillad gorau ar gyfer achlysuron arbennig. Nid yw'r wisg genedlaethol o reidrwydd felly yn cynrychioli gwisg ddyddiol y 'Gymraes draddodiadol'.



Llun: 'Welsh Costumes- Wales' Detroit Photographic Company, 1905, [Wikicommons](#).

Gadewch i ni archwilio sut y daeth y ffrog yn symbol o Gymru. Yn ystod y 18fed ganrif daeth cannoedd o deithwyr ac artistiaid i Gymru i chwilio am y 'Gymru wyllt' ramantaidd fel gwrthbwynt i gyfnod o drefoli a diwydiannu torfol. Roedd llawer yn cadw cofnodion o'r golygfeydd a welsant ar eu teithiau trwy Gymru, gan gynnwys y wisg Gymreig nodedig. Rhoddodd y disgrifiadau o Gymru ddarluniadol, gyda'i hiaith fywiog a'i gwisg unigryw i ferched, syniad sentimental o Gymru i weddill Prydain. Ond, mewn ffordd 'roedd hon yn ddelwedd gamarweiniol. Mewn gwirionedd, 'roedd Cymru ar droad y 19eg ganrif yn genedl oedd yn cael ei thrawsnewid, gyda'i diwydiannu cyflym yn arwain at dwf mewn ardaloedd trefol, a chefnu, gan rai, ar fywyd traddodiadol y 'Gwerin'. Arweiniodd hyn at alwadau gan Ramantiaid am gadw'r arferion gwledig oedd yn prysur ddiflannu, boed hynny trwy baentiadau fel rhai gan W.H Payne a J.W Harding neu dechnegau mwy curadurol fel ymdrech y Fonesig Augusta Hall o Lanofor i ddiogelu cynhyrchu brethyn gwlân traddodiadol.

Roedd ymweliadau anaml y teulu brenhinol â Chymru yn cael eu hadrodd yn sycoffantaidd fel rhai yn llawn croeso cynnes gan dyrfaoedd mawr, gyda disgrifiadau o'r wisg Gymreig fel nodwedd 'chwilfrydig'. Cymaint oedd yr adroddiadau am fywyd Cymreig a'r sylwadau ar yr hetiau uchel a'r gynau gwely y bu'n rhaid i rai merched fynychu digwyddiadau brenhinol yn y wisg genedlaethol, fel y tystir gan eiriau'r Frenhines Fictoria yn Ffigwr 1. Gwelwyd y wisg fel arwydd o Gymreictod, oedd yn plethu gyda'r pwysau diwylliannol a roddai Oes Victoria ar egsotigiaeth yr hunaniaethau Celtaidd.



Llun: Porthcawl, Bridgend Glamorgan "Carbo Colour" Postcard, Valentine & Sons (1965).

<https://www.ebay.co.uk/itm/125125469417>

Ffigur 1

'This harbor, Milford Haven, is magnificent; the largest we have; a fleet might lie here. We are anchored just off Milford. Pembroke in front, in the distance. The cliffs, which are reddish-brown, are not very high. Albert and Charles went in the "Fairy" to Pembroke, and I sketched. Numbers of boats came out, with Welsh women in their curious high-crowned men's hats; and Bertie was much cheered, for the people seemed greatly pleased to see the "Prince of Wales."

A very pretty dairy-maid, in complete Welsh costume, was brought on board for me to see.'

Adroddiad y Frenhines Victoria am Aberdaugleddau Awst 15fed 1847 yn *Journal of Our Life in the Highlands*, o 1848 hyd 1861, 1868, t. 71; Adran Aberdaugleddau a gyhoeddwyd yn *Potter's Electric News*, 29 Ionawr 1868.

Mae'r mwyafrif o'r adroddiadau a'r darluniau o wisgoedd Cymreig yn cyfleu merched yn mynd a dod o'r farchnad i brynu a gwerthu cynnyrch, achlysur lle byddai'n ofynnol i wragedd a merched fferm wisgo eu dillad gorau, efallai fel arwydd eu bod yn drigolion lleol. Roedd rhai amrywiadau. Er enghraifft, roedd casglwyr cocos benywaidd Penrhyn Gŵyr yn gwisgo steil addas i weithio ar hyd yr arfordir, gyda'u hetiau wedi'u dylunio i hwyluso cario cynnyrch ar eu pennau. Ychydig iawn o enghreifftiau darluniadol sydd o hyn oherwydd y diffyg ffotograffiaeth ar y pryd. Yn wir, dim ond yn dilyn datblygiadau mewn ffotograffiaeth y gallwn gael cipolwg eglur ar wisg pob-dydd menywod wrth eu gwaith yng Nghymru, a digwyddodd hynny pan oedd y wisg Gymreig fel 'lifrai' eisoes wedi'i sefydlu'n ddiwylliannol.

Gyda datblygiadau mewn technoleg ffotograffig wrth i'r 19eg ganrif fwrw'n ei blaen manteisiodd ffotograffwyr masnachol ar ffenomen y wisg ddiwylliannol Gymreig trwy gynhyrchu ffotograffau ar gyfer casglwyr, megis John Thomas o Lerpwl. Gwerthwyd rhai o'r ffotograffau hyn fel math o chwilfrydedd diwylliannol a chomisiynwyd eraill gan y testunau

eu hunain fel portreadau *cartes de visite* i'w dosbarthu i ffrindiau a theulu. Erbyn y 1880au roedd y syniad o'r wisg genedlaethol fel symbol o dreftadaeth Gymreig wedi'i amsugno'n llawn i ymwybyddiaeth y Cymry ac ymwelwyr o'r tu hwnt i'r ffin.

Wrth i'r 19eg ganrif ddirwyn i ben ychydig o bobl Cymru oedd yn galaru am golli'r wisg werin Gymreig a'i diwydiannau traddodiadol cysylltiedig. 'Roedd ffasiynau yng Nghymru wedi esblygu erbyn troad y cyfnod Edwardaidd ac nid oedd y ffrog draddodiadol yn cael ei gwisgo mwyach ar ymweliadau â'r farchnad, gyda'r het uchel a'r gŵn gwely wedi'u rhoi i gadw yn y cwpwrdd dillad seremonïol. Yn hytrach nac fel brethyn dyddiol, daeth y wisg yn un ar gyfer achlysuron arbennig megis ymweliadau Brenhinol, Eisteddfodau a pherfformiadau corawl Cymreig. Gyda theithio rhad ar drên yn ehangu, gan wneud Cymru'n llawer mwy hygrych, daeth twristiaeth dorfol i'r fei, a gyda hynny effemera yn portreadu merched mewn gwisg draddodiadol megis posterï rheilffordd, cardiau post a chofroddion. Roedd y gorlifiad poblogaidd yma o'r wisg Gymreig yn digwydd yn gydamserol â rhai o weithiau eiconig yr artist Curnow Vosper, megis 'Salem' a 'Diwrnod Marchnad yr Hen Gymru', ac mae'n debygol mai amlygrwydd y 'ferch Gymreig' i'r farchnad ymwelwyr a ddylanwadodd ar greu'r darluniau enwog hyn.

Arweiniodd bywiogrwydd cenedlaetholdeb Gymreig radical, digwyddiadau allweddol megis arwisgiad Tywysog Cymru yng Nghaernarfon yn 1911 ac esgyniad David Lloyd George o Lanystumdwy i swydd y Prif Weinidog yn 1916 at ymwybyddiaeth gynyddol o ystyr 'Cymreictod' i bobl Cymru a'i gwylwyr allanol ar ddechrau'r 20fed ganrif. Er gwaetha'r disgwrs carfannol ynglŷn ag ystyr 'hunaniaeth Gymreig', mae'r Gymraes, yn ei het uchel, ei gŵn gwely, ei ffedog wlanan, a'i siôl yn parhau i fod yn un o'r symbolau amlycaf o Gymru yn yr 21ain ganrif.

Tasgau Trafod

- Ystyriwch pam nad oes gan ddynion wisg Gymreig draddodiadol. A yw hyn oherwydd eu bod yn gwisgo dillad tebyg i'r rhai Seisnig ac felly ddim yn cynrychioli gwahaniaeth digon cryf i ffurfio hunaniaeth unigryw?
- Ydy'r wisg draddodiadol Gymreig dal i fod yn gyfystyr â Chymru?
- Beth allai fod yn 'wisg Gymreig' fodern? Top rygbi? Het bwced Cymreig?



Llun: 'A Welsh maid at Caernarvon Castle, Wales', E. T. W. Dennis & Sons (1949).

Tirwedd fel Testun Hanesyddol

Mae tirwedd ynddo'i hun yn 'destun' (*text*) o hanes, wedi'i arysgrifio ag olion gweithgaredd dynol yn y gorffennol sy'n llywio hunaniaeth y gymuned. Enghreifftiau o hyn yw henebion, hen ffyrdd, aneddiadau segur a therasau amaethyddol. Mae pobl sy'n dysgu am dreftadaeth y tirnodau hyn yn ennill mwy na gwybodaeth academaidd yn unig. Yn hytrach, deuant i weld y wlad yn destament byw i ymdrechion, gorchestion a bywyd beunyddiol y rhai a ddaeth o'u blaenau. Gall deall sut y datblygodd y lleoedd hyn dros amser, a sut yr oedd pobl yn rhyngweithio â'r tir, gynnig cysylltiad dyfnach â hunaniaeth y gymuned, gan ein hannog i weld ein hunain fel rhan o hanes dros gyfnod maith o'r gorffennol.

Mae nodweddion ffisegol y tirwedd yn fwy na chefnidir tawel a di-symud i'n cynefin. Yn hytrach, maent yn gyfranogwyr gweithredol wrth ffurfio hunaniaeth grŵp, gan adlewyrchu gweithgareddau economaidd, arferion diwylliannol a strwythurau cymdeithasol. Trwy archwilio'r elfennau hyn gallwn ddarganfod sut mae pobl wedi rhyngweithio'n hanesyddol â'u hamgylchedd a sut mae'r rhyngweithio hwnnw wedi dylanwadu ar y ffordd y maent yn gweld eu hunain, ei gilydd, a'r byd y tu hwnt.

1. Aneddiadau (*Settlements*) a Thai

Mae'r ffordd mae cymunedau wedi'u strwythuro, a lle mae pobl yn byw, yn datgelu llawer am drefn a gwerthoedd cymdeithasol. Er enghraifft, mae cynllun anheddiad—boed wedi'i glystyru o amgylch maes pentref, wedi'i wasgaru ar hyd glan afon, neu wedi'i leoli ar ochr bryn—yn dweud wrthym ni sut mae pobl wedi addasu a rhyngweithio gyda'r tir. Mae datblygu tai, o anheddau cynnar i gartrefi modern, yn adlewyrchu newidiadau mewn arferion cymdeithasol ac economaidd. Mewn llawer o gymunedau gwledig, mae agosrwydd

cartrefi at gaeau amaethyddol neu fannau cymunedol yn arwydd o bwysigrwydd rhannu adnoddau a byw ar y cyd. Mae deall sut mae patrymau anheddu cymuned wedi esblygu yn rhoi mewnwelediad allweddol i'w synnwyr o undod, cof cyfunol, a sut mae ei hunaniaeth wedi'i ffurfio gan y tir.

2. Caeau a Thir Amaethyddol

Yn hanesyddol 'roedd amaethyddiaeth yn ganolog i hunaniaeth llawer o gymunedau. Mae caeau a thir fferm yn adrodd hanes sut yr oedd pobl yn ddibynnol ar y tir am gynhaliath, gan lunio eu gwaith, eu traddodiadau a'u strwythurau cymdeithasol. Mae patrymau defnydd tir, megis rhannu caeau, arferion ffermio cymunedol, neu hyd yn oed presenoldeb hen wrychoedd a ffiniau caeau, yn adlewyrchu sut y trefnodd cymunedau eu hunain o amgylch anghenion amaethyddol. Mewn cymunedau lle mae ffermio wedi bod yn brif gynhaliath bywyd, mae'r tirweddau hyn yn dod yn rhan annatod o hunaniaeth leol gan eu bod yn symbol o wydnwch, hunangynhaliath a pharhad o'r gorffennol. Gall archwilio'r nodweddion hyn ein helpu i ddeall sut mae hanes ffermio a rheoli tir wedi'i blethu i wead hunaniaeth leol.

3. Tirnodau Lleol a Neuaddau Tref

Mae tirnodau lleol, megis melinau, neuaddau tref neu ganolfannau cymunedol, yn rhoi mewnwelediad allweddol i fywyd cymdeithasol ac economaidd cymuned. Mae'r strwythurau hyn yn aml yn cynrychioli penderfyniadau cymunedol, gwaith a rennir a chynulladau cyhoeddus, sy'n agweddau hanfodol ar hunaniaeth grŵp. Er enghraifft, efallai mai neuadd y dref fyddai'r lleoliad lle gwnaed penderfyniadau cymdeithasol, gwleidyddol neu ddiwylliannol pwysig, sy'n symbol o lais a llywodraethu cyfunol y gymuned. Mae melinau, oedd yn aml yn ganolog i gymunedau amaethyddol neu ddiwydiannol, yn cynrychioli trawsnewid adnoddau a llafur lleol. Mae'r tirnodau hyn yn dod yn llawer mwy na gofodau ffisegol yn unig; maent yn cael eu trwytho ag atgofion torfol, gan siapia sut mae cymunedau'n gweld eu hunain a'u rôl yn y byd mwy o'n cwrmpas.

4. Diwydiant a Masnach

Mae tirweddau diwydiannol a chyn-ganolfannau masnach fel porthladdoedd yn aml yn gadael etifeddiaeth barhaus ar eu cymunedau, ymhell ar ôl i'r diwydiannau eu hunain ddirywio neu ddiffannu. Mae'r gweddillion ffisegol—warysau, rheilffyrdd, iardiau dociau, a thai teras—yn llunio hunaniaeth a chynllun trefi a dinasoedd. Yn ddyfnach, mae gan y lleoedd hyn atgof diwylliannol o lafur, mudo ac arloesedd sy'n dylanwadu ar falchder cymunedol ac yn clymu straeon bro rhwng cenedlaethau. Yng Nghymru yn arbennig, diwydiant oedd tarddiad cymunedau cyfan yn aml, gan dynnu pobl at ei gilydd o amgylch llafur a phwrpas cyffredin. Mae balchder dwfn yng nghrefft, sgil ac undod y diwylliannau gwaith hyn yn parhau'n gryf, hyd yn oed wrth i'r diwydiannau bylu, gan barhau i lunio hunaniaeth leol a gwydnwch hyd heddiw. Mae deall y creithiau y mae diwydiant wedi'u gadael ar y tirwedd hefyd yn dyfnhau ein hymwybyddiaeth o effaith ddwys gweithgaredd dynol. Gall fod yn anodd portreadu'r tir cyn echdynnu neu ddiwydiannu, gydag olion y diwydiannau hyn yn aros fel ysbrydion: presenoldebau cyfarwydd sy'n parhau i ddylanwadu ar sut mae cymunedau'n gweld eu hunain a'u lle yn y byd.

5. Llên gwerin ac enwau lleoedd

Yn elfen anniriaethol o'n tirwedd, mae deall enwau lleoedd a'r llên gwerin sy'n gysylltiedig â nhw yn hollbwysig er mwyn datgelu'r cysylltiadau dwfn rhwng pobl a'r tirweddau y maent yn byw ynddynt. Mae'r enwau hyn yn aml yn dal cliwiau ieithyddol i amgylcheddau'r gorffennol, defnydd tir, patrymau anheddu a gwerthoedd diwylliannol, gan weithredu fel math o archif byw sydd wedi'i wreiddio mewn iaith bob dydd. Mae llên gwerin, hefyd, yn cadw gwybodaeth leol, cof, a hunaniaeth, gan gynnig cipolwg ar sut mae cymunedau wedi dehongli eu hamgylchedd dros genedlaethau. Gyda'i gilydd, mae enwau lleoedd a llên gwerin yn cyfoethogi ein dealltwriaeth o gynefin ardal, gan ein seilio mewn treftadaeth gyffredin a helpu i gynnal ymdeimlad o barhad rhwng ffyrdd o fyw'r gorffennol a'r presennol.

Peiriant Amser y Tirlun

Dewch ar daith i archwilio sut mae'r tirlun o'n cwmpas wedi newid dros amser, o'r gorffennol i heddiw, ac yna i'r dyfodol. Gan ddefnyddio'r tabl isod gallwn archwilio sut mae'r tirwedd wedi newid, a beth mae hynny'n ei ddatgelu am gymunedau ardal ar wahanol adegau, ynghyd â'u hetifeddiaeth heddiw. Gellir archwilio hyn mor eang neu mor gul ag y dymuner, boed hynny ar lefel tref neu bentref, lefel sirol neu Gymru gyfan. Nid oes angen llenwi pob colofn, a gellir addasu yn unol â'ch esiamp.

Mae'r tabl yn ein hannog i ymchwilio i'n tirwedd ac i fyfyrto ar sut mae dealltwriaeth hanesyddol o dirwedd yn dylanwadu ar ein hymlyniad at le. Er enghraifft, a yw deall hanes diwydiannol ein tref yn newid sut y teimlwn am ein cynefin, yn gwella ein dealltwriaeth o dirnodau ac yn atgyfnerthu ymdeimlad o hunaniaeth gymunedol? Gellir clymu hyn gyda theithiau maes ac ymweliadau safle.



CYFNOD	Pwy?	Beth?	Pryd?	Pam?	Ble?	Sut?
2500 BC (Oes y Cerrig)						
500 BC						
0						
500						
1000						
1500						
1800						
1900						
1975						
Heddiw						
Y Dyfodol?						

Isod mae rhai enghreifftiau o wahanol ranbarthau o Gymru. Bydd yr enghreifftiau hyn yn dangos sut mae'r system "pwy, beth, pryd, pam, ble a sut" yn echdynnu gwybodaeth berthnasol o safle, gan wella'n dealltwriaeth o'i le yn y tirwedd a stori gronolegol yr ardal.



Bryn Celli Ddu, Ynys Môn

5,000 o flynyddoedd yn ôl

Pwy?

Cymunedau'r Neolithig—pobl a oedd yn byw dros 5,000 o flynyddoedd yn ôl—adeiladodd ac a ddefnyddiodd Bryn Celli Ddu. Roedd y bobl hyn yn ffermwyr cynnar ac adeiladwyr a adawodd gliwiau am eu bywydau, eu credoau a'u defodau.

Beth?

Mae Bryn Celli Ddu yn feddrod pasiad (*passage tomb*) o'r cyfnod Neolithig—math arbennig o feddrod. Mae'n cynnwys coridor hir o gerrig sy'n arwain at siambr ganolog o dan dwmpath pridd. Y tu mewn, mae colofn fawr, lefn a charreg wedi'i haddurno â phatrymau troellog (copi o'r garreg wreiddiol).

Pryd?

Adeiladwyd y safle tua 3,000 CC, yn ystod y cyfnod Neolithig. Cyn y feddrod, roedd yna *henge*—ardal gylchol gyda ffos a cherrig sefyll ar gyfer seremonïau. Tua 1,000 o flynyddoedd yn ddiweddarach, cafodd y feddrod ei hadeiladu yn ei lle.

Pam?

Mae'n debyg fod Bryn Celli Ddu wedi ei adeiladu ar gyfer seremonïau a phwrpasau claddu. Efallai ei fod yn lle i anrhydeddu'r hynafiaid, cynnal defodau ac i nodi digwyddiadau pwysig fel heuldro'r haf, pan fydd golau'r haul yn disgleirio i mewn i'r siambr fewnol trwy'r fynedfa.

Ble?

Mae Bryn Celli Ddu wedi'i leoli ar ynys Môn, yng ngogledd Cymru, ger pentref Llanddaniel Fab. Mae wedi'i amgylchynu gan nodweddion hynafol eraill, gan gynnwys cerrig sefyll a cherfiadau ar gerrig, sy'n awgrymu mai rhan o dirwedd sanctaidd ehangach ydoedd. Mae'r cysylltiadau posibl â safleoedd tebyg yn lwerddon yn awgrymu bod pobl ar draws y môr hefyd yn rhannu syniadau a defodau cyffelyb.

Sut?

Defnyddiwyd cerrig mawr i adeiladu'r coridor a'r siambr, gan eu gorchuddio â phridd i greu twmpath. Aliniodd y bobl a grëodd y feddrod y fynedfa'n ofalus gyda safle'r haul yn ystod heuldro'r haf, gan ddangos eu dealltwriaeth o'r sêr.



Eglwys Gadeiriol Tyddewi

500 - 1,000

o flynyddoedd yn ôl

Pwy?

Dewi Sant, esgob a mynach o'r 6ed ganrif, a sefydlodd y gymuned fynachaidd yma. Ar y pryd, roedd Cymru yn gartref i gymunedau Celtaidd amrywiol. Mae'r eglwys gadeiriol yn adlewyrchu ffydd Gristnogol ddofn y bobl yn yr ardal hon, ardal a geisiodd arweiniad ysbrydol gan y gymuned fynachaidd a sefydlwyd gan Dewi Sant.

Beth?

Mae Eglwys Gadeiriol Tyddewi yn adeilad hanesyddol a saif mewn ardal lle dylanwadwyd ar y boblogaeth leol gan ddirywiad rheolaeth y Rhufeiniaid ym Mhrydain. Ar ôl cwmp y Ymerodraeth Rufeinig, profodd Cymru gyfnod o ddarnio a thrawsnewid, ond erbyn cyfnod Dewi Sant 'roedd Cristnogaeth Geltaidd wedi dod yn rhan ganolog o'r hunaniaeth ddiwylliannol. Mae'r eglwys gadeiriol, a adeiladwyd ar safle cymuned fynachaidd Dewi Sant, yn symbol o ffydd a gwynnwch y bobl yn yr ardal hon, a oedd, er eu bod yn wynebu heriau, yn cynnal arferion crefyddol a diwylliannol cryf a oedd yn ganolog i'w ffordd o fyw.

Pryd?

Mae'r tirnod hwn yn croesi dwy golofn: ei sefydlu yn 500AD ac adeiladu ei hadeilad presennol yn ystod y Gymru Normanaidd ym 1180. Sefydlodd Dewi Sant y fynachlog yn y 6ed ganrif, ar adeg pan oedd llawer o Gymru wedi'i rhannu'n deyrnasoedd bychain. Effeithiwyd yn ddwfn ar y cymunedau hyn gan etifeddiaeth y Rhufeiniaid ond, yn gynyddol, roeddent yn datblygu eu diwylliant Celtaidd unigryw eu hunain. Roedd adeiladu'r eglwys gadeiriol fodern yn y 12fed

ganrif yn cyd-daro â chyfnod o newid crefyddol a gwleidyddol mawr arall yng Nghymru, wrth i'r Normaniaid ddylanwadu ar y rhanbarth.

Pam?

Adeiladwyd yr eglwys gadeiriol fel man addoli a phererindod, gan adlewyrchu pwysigrwydd Cristnogaeth ym mywydau'r bobl leol. Ar y pryd, 'roedd defosiwn crefyddol yn ganolog i fywyd bob dydd, ac roedd rôl yr eglwys gadeiriol fel safle pererindod yn gymorth i sefydlu cysylltiadau â chymunedau eraill ledled Ewrop. I'r bobl a oedd yn byw yn yr ardal hon, nid gofod ffisegol yn unig oedd yr eglwys gadeiriol ond symbol o'r ffydd Gristnogol barhaus a luniodd eu byd-olwg, o'u defodau i'w perthynas â'r wlad.

Ble?

Mae Eglwys Gadeiriol Tyddewi wedi'i lleoli yn ninas Tyddewi, Sir Benfro, yng ngorllewin Cymru, man sydd wedi'i hamgylchynu gan fryniau tonnog ac arfordiroedd garw. Byddai'r rhanbarth, ar y pryd, wedi profi dylanwad rheolaeth Rufeinig, gyda chymunedau'n trawsnewid o feddiannaeth y Rhufeiniaid i draddodiadau canoloesol. Mae lleoliad yr eglwys gadeiriol yn yr ardal anghysbell hon yn amlygu'r arwyddocâd ysbrydol a oedd ganddi i'r rhai oedd yn byw yno, yn ogystal â heriau bywyd mewn gwlad oedd yn aml yn cael ei hynysu gan rwystrau naturiol y tirlun.

Sut?

Defnyddiwyd deunyddiau a thechnegau adeiladu lleol wrth adeiladu'r eglwys gadeiriol, gan gyfuno elfennau o bensaerniaeth Normanaidd a Gothig. Mae hyn yn adlewyrchu ymarferoldeb bywyd yn y rhanbarth ar y pryd, gyda chymunedau'n dibynnu ar adnoddau a llafur lleol. Roedd y crefftwyr a weithiai ar y gadeirlan yn rhan o'r economi leol, a oedd wedi'i seilio'n bennaf ar ffermio, ac 'roedd eu gwaith yn adlewyrchiad uniongyrchol o ddefosiwn y bobl oedd yn byw yn yr ardal.



Gwaith Haearn Blaenafon

100
o flynyddoedd yn ôl

Pwy?

Denodd y gweithfeydd haearn weithwyr o bob rhan o Gymru a thu hwnt, gan gynnwys llawer o lwerddon. Roeddent yn byw mewn cymunedau cyfagos fel Stack Square, lle mae bythynnod gweithwyr bellach wedi'u hadfer i ddangos bywyd o'r 1870au i'r 1970au.

Beth?

Roedd Gwaith Haearn Blaenafon yn safle cynhyrchu haearn o bwys rhwng 1789 a 1902. Roedd yn un o weithfeydd haearn mwyaf datblygedig ei gyfnod yn dechnolegol, yn cynnwys chwe ffwrnais chwyth, tŷ bwrw, ffoundri a thŵr cydbwysedd dŵr a godai wagenni 80 troedfedd i'r awyr.

Pryd?

Dechreuodd y gwaith haearn weithredu ym 1789 a pharhaodd tan 1902. Yn 2000, dynodwyd y safle yn Safle Treftadaeth y Byd UNESCO, gan gydnabod ei arwyddocâd yn y Chwyldro Diwydiannol.

Pam?

Sefydlwyd y gweithfeydd haearn i ateb y galw cynyddol am haearn yn ystod y Chwyldro Diwydiannol. Roeddent yn chwarae rhan hanfodol yn natblygiad y diwydiant haearn, a oedd yn hanfodol ar gyfer adeiladu seilwaith fel rheilffyrdd a phontydd.

Sut?

Roedd y gweithfeydd haearn yn defnyddio adnoddau lleol, gan gynnwys glo, mwyn haearn, a chalchfaen, i gynhyrchu haearn. Datblygwyd arloesiadau fel proses Gilchrist-Thomas yma, gan chwyldroi cynhyrchu dur.

Ble?

Lleolir Gwaith Haearn Blaenafon yng nghymoedd de Cymru, yn nhref Blaenafon, Torfaen. Mae'r ardal wedi'i hamgylchynu gan fryniau ac yn gyfoethog mewn adnoddau naturiol fel glo, mwyn haearn, a chalchfaen - yr union bethau oedd eu hangen ar gyfer cynhyrchu haearn. Ffuriodd yr adnoddau hyn nid yn unig y diwydiant, ond hefyd fywydau'r bobl a oedd yn byw ac yn gweithio yn y dirwedd gyfagos.



CROESO I'R CAE RAS WELCOME TO THE RACECOURSE



Ystafell Gin Americanaidd Hedfan / Aviation American Gin Suite

Blychau Gweithredol / Executive Boxes

Lolfa Partneriaid 1864 / 1864 Partner's lounge

Derbyniad / Reception



Croeso i'r
Cae Ras
Welcome to the
Racecourse



Llawr Gwelod - Derbyniad
Llawr Iaf - Lolfa'r partner 1864
2il Lawr - Blychau Gweithredol
3ydd Lawr -
Ystafell Gin Americanaidd Hedfan

Ground Floor - Reception
1st Floor - 1864 Partner's lounge
2nd Floor - Executive Boxes
3rd Floor - Aviation American Gin Suite



Y Cae Ras

(Heddiw)

Pwy?

Cefnogwyr Clwb Pêl-droed Wreccsam, y chwaraewyr a'r gymuned leol sydd wedi cefnogi'r stadiwm ers cenedlaethau sy'n perchnogi'r Cae Ras, ynghyd ag, yn fwy diweddar, yr actorion Hollywood Rob McElhenney a Ryan Reynolds. Mae trigolion Wreccsam wedi ystyried y stadiwm yn rhan ganolog o hunaniaeth eu bro ers tro, gyda phobl leol yn mynychu gemau a digwyddiadau yno. Mae'r cysylltiad hwn yn ymestyn y tu hwnt i'r cefnogwyr yn unig; mae'r stadiwm yn rhan o fywyd y ddinas gyfan a hanes cyfunol y gymuned.

Beth?

Y Cae Ras yw'r stadiwm pêl-droed rhyngwladol hynaf sy'n dal i gael ei ddefnyddio heddiw. Wedi'i sefydlu'n wreiddiol fel cae rasio ym 1807, daeth yn stadiwm pêl-droed ym 1864, ac ers hynny mae wedi cynnal gemau pêl-droed rheolaidd, gan gynnwys gemau rhyngwladol ers 1877. Mae'r maes yn parhau i gael ei ddefnyddio heddiw ar gyfer gemau pêl-droed, cyngherddau a digwyddiadau cymunedol amrywiol, gan ei wneud yn ganolbwynt hanfodol ar gyfer chwaraeon a diwylliant yn yr ardal.

Pryd?

Agorodd y safle fel cae rasio ym 1807 ond cafodd ei drawsnewid yn stadiwm pêl-droed yn 1864 pan sefydlwyd Clwb Pêl-droed Wreccsam. Dros y blynyddoedd, mae'r stadiwm wedi esblygu gyda'r oes, gan gynnwys gemau pêl-droed cenedlaethol a rhyngwladol, a pharhau i fod yn fan ymgynnull i'r gymuned. Mae wedi gwrthsefyll prawf amser, gan ei wneud yn symbol parhaol o dreftadaeth chwaraeon Wreccsam.

Ble?

Lleolir Y Cae Ras reit yng nghanol Wreccsam, yng ngogledd-ddwyrain Cymru. Golyga'i safle canolog ei fod wedi'i amgylchynu gan ardaloedd preswyl, siopau ac ysgolion sy'n ei gwneud yn hawdd i bobl leol ei weld a'i gyrraedd. Mae'r stadiwm yn rhan o wead y ddinas ac yn safle pwysig ym mywyd beunyddiol trigolion Wreccsam, gan sefyll fel tirnod sy'n clymu'r gymuned ynghyd.

Pam?

Adeiladwyd y stadiwm nid yn unig fel lleoliad chwaraeon, ond hefyd i ddarparu gofod ar gyfer digwyddiadau lleol, gan feithrin ymdeimlad o undod a balchder i bobl Wreccsam. Mae ei hanes hir yn adlewyrchu gwreiddiau dwfn y dref mewn diwylliant chwaraeon, ac mae'n parhau i chwarae rhan bwysig yn hunaniaeth Wreccsam heddiw, gan gynnwys gemau pêl-droed proffesiynol a digwyddiadau cymunedol.

Sut?

Mae Y Cae Ras yn cynnig gofod pwysig ar gyfer chwaraeon a hamdden, gan gyfrannu at fywyd cymunedol Wreccsam, yn cefnogi talent leol ac yn meithrin ymdeimlad cryf o falchder.



Fferm Wynt Aberystwyth (Y Dyfodol)

Dyma **enghraifft ffuglennol**, sy'n ymarfer defnyddiol wrth i ni feddwl am ein teimladau am hunaniaeth cymunedol a'r dirwedd, a sut yr hoffem ei siapia ar gyfer y dyfodol.

Pwy?

Mae Llywodraeth Cymru, gan weithio ochr yn ochr â chymunedau lleol, grwpiau amgylcheddol a busnesau lleol, yn arwain y prosiect i sefydlu'r Fferm Wynt. Bydd hefyd yn creu cyfleoedd gwaith i bobl leol, gan gynnwys rolau mewn adeiladu, cynnal a chadw a gweinyddu'r fferm wynt. Mae'r prosiect hwn yn helpu i wneud Cymru'n arweinydd ym maes ynni glân ac yn darparu cyflogaeth leol wrth fynd i'r afael â newid hinsawdd.

Beth?

Mae Llywodraeth Cymru yn bwriadu codi fferm wynt ger Aberystwyth. Bydd y fferm wynt hon yn defnyddio tyrbinau gwynt mawr i ddal ynni o'r gwynt a'i drawsnewid yn drydan. Bydd yr ynni adnewyddadwy hwn yn helpu i bweru cartrefi, ysgolion a busnesau yn yr ardal, gan leihau'r angen am ffynonellau ynni sy'n llygru, fel glo neu nwy.

Pryd?

Mae disgwyl i'r fferm wynt gael ei chwblhau erbyn 2027, gyda Llywodraeth Cymru yn anelu at Gymru garbon-niwtral erbyn 2030. Mae hyn yn golygu eu bod yn bwriadu defnyddio ynni gwyrdd yn unig yn y dyfodol a rhoi'r gorau i ddefnyddio tanwyddau ffosil sy'n niweidio'r blaned.

Ble?

Bydd y fferm wynt yn cael ei lleoli ar ben hen safle tirlenwi ger Aberystwyth, gan ganiatáu i'r tir gael ei aildefnyddio i bwrpas cynaliadwy. Mae'r lleoliad hwn yn ddelfrydol oherwydd ei fod yn cael llawer o wynt, sy'n ei wneud yn berffaith ar gyfer cynhyrchu trydan.

Pam?

Mae'r prosiect hwn yn rhan o ymdrechion Llywodraeth Cymru i frwydro yn erbyn newid hinsawdd. Trwy ddefnyddio ynni gwynt, gallant leihau dibyniaeth ar danwyddau ffosil sy'n llygru'r amgylchedd. Bydd y prosiect hefyd yn cyfrannu at ddyfodol glanach, mwy cynaliadwy, i Gymru ac yn dangos sut y gall ynni gwyrdd chwarae rhan mewn amddiffyn y blaned ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol.

Sut?

Galwodd grwpiau gweithredu hinsawdd yn y gymuned am fesurau i helpu i ddiogelu amgylchedd Cymru rhag y difrod a achosir gan danwyddau ffosil. Arweiniodd hyn at fuddsoddiad sylweddol yn yr ardal gan gwmnïau ynni gwyrdd a thrafodaeth gyhoeddus agored am fanteision ynni gwyrdd a buddsoddiad lleol, yn erbyn cadwraeth ardaloedd o harddwch naturiol eithriadol, gyda chyfaddawd hapus yn cael ei gwrdd gan y ddwy ochr.

Bryn Celli Ddu

Mae ymchwilio i'r safle yma'n cynnig cipolwg gwerthfawr ar sut roedd pobl yn byw yn y gorffennol, yr hyn yr oeddent yn ei werthfawrogi, a'u cysylltiadau â'r byd ehangach. Mae'n dangos hyd yn oed 5,000 o flynyddoedd yn ôl fod pobl yn ymgysylltu â'r dirwedd ac yn ei dehongli, yn debyg iawn i'n hamgylchedd ni heddiw. Mae deall y gorffennol hynafol o fewn tirwedd yn allweddol i werthfawrogi ein hamgylchedd modern, wrth iddo amlygu parhad y cysylltiad dynol â'r tir, y gwahanol ffyrdd y caiff tirweddau eu dehongli a'r ymdeimlad ehangach o gymuned sy'n ymestyn y tu hwnt i'r presennol.

Eglwys Gadeiriol Tyddewi

Mae astudio Eglwys Gadeiriol Tyddewi yn ein helpu i ddadansoddi sut mae ffydd, lle a hunaniaeth wedi bod yn gysylltiedig ers amser maith yn y rhan hon o Gymru. Fel canolfan pererindod ers canrifoedd, mae'n adlewyrchu nid yn unig defosiwn crefyddol, ond y ffordd y mae cymunedau wedi llunio, a chael eu llunio, gan eu tirwedd. Mae presenoldeb yr eglwys gadeiriol yn dangos sut y mynegai pobl eu credoau, sut y meithrinent gysylltiadau ar draws rhanbarthau, ynghyd â'r modd yr oeddent yn marcio'r wlad ag ystyr. Mae deall y safle hwn yn ein hannog i weld y dirwedd fodern yn haenog o straeon a gwerthoedd o'r gorffennol, gan ein helpu i werthfawrogi sut mae syniadau o berthyn a hunaniaeth yn yr ardal wedi datblygu dros amser. Mae'n ehangu ein golwg ar gymuned y tu hwnt i'r presennol, gan ein cysylltu â'r rhai a ddaeth o'n blaenau.

Gwaith Haearn Blaenafon

Mae archwilio Gwaith Haearn Blaenafon yn ein cynorthwyo i ddeall sut y lluniodd diwydiant nid yn unig y dirwedd, ond hefyd hunaniaeth a bywyd beunyddiol y bobl a oedd yn byw yno: y gymuned waith o deuluoedd, llafurwyr, a pheirianwyr oedd wedi'u cysylltu'n ddwfn â rhythmau cynhyrchu haearn a gofynion byd oedd yn trawsnewid yn gyflym. Mae cydnabod effaith ffisegol a chymdeithasol y gwaith haearn yn ein helpu i weld tirwedd heddiw fel un sydd wedi'i nodweddu gan arloesedd, caledi a gwydnwch. Mae'n ein gwahodd i fyfyrio ar sut y ffurfiwyd cymunedau o amgylch gwaith, sut y gwnaethant adael eu hól ar y tir, a sut mae eu hetifeddiaeth yn parhau i lywio hunaniaeth a balchder lleol. Mae deall lleoedd fel Blaenafon yn ehangu ein hymdeimlad o gynefin, gan gysylltu bywyd heddiw â phrofiadau cyffredin y gorffennol.

Y Cae Ras

Mae'r Cae Ras yn ein hybu i weld sut mae chwaraeon yn rhan o hunaniaeth gymunedol yng Nghymru. Fel maes pêl-droed hirsefydlog mae'n dangos sut gall pobl ddod at ei gilydd i gefnogi angerdd a rennir ac i ymfalchïo yn eu lle. Mae astudio'r safle'n amlygu traddodiadau lleol, bywyd cymdeithasol, ac ymdeimlad o berthyn yn gysylltiedig â'r dirwedd a'r gymuned. Mae'n ein hannog i weld lleoedd modern fel rhan o stori hwy o glymau cymunedol a hunaniaeth.

Fferm Wynt Aberystwyth

Mae dychmygu safle yn y dyfodol, fel prosiect ynni gwyrdd, yn ein hannog i feddwl am y math o gymuned yr ydym am fod. Mae'n ein gwthio i ystyried sut mae penderfyniadau heddiw yn llywio'r dirwedd, a sut gall cenedlaethau'r dyfodol fyw, gweithio a chysylltu â'r tir. Mae meddwl am y dyfodol ochr yn ochr â'r gorffennol a'r presennol yn ein galluogi i weld hunaniaeth gymunedol fel rhywbeth sy'n parhau i dyfu ac esblygu. Dangosa fod cynefin nid yn unig am o le rydyn ni wedi dod, ond hefyd am ble rydyn ni'n mynd yn y blynyddoedd a'r degawdau i ddod.

Cipolwg o'r bennod

- Mae treftadaeth a hunaniaeth wedi'u cysylltu'n agos, gan siapio sut rydyn ni'n deall ein hunain, sut rydyn ni'n uniaethu ag eraill, a sut rydyn ni'n llywio'r byd o'n cwmpas.
- Mae elfennau anniriaethol fel iaith, traddodiadau ac arferion yn chwarae rhan allweddol wrth ffurfio ein hymdeimlad o hunaniaeth, gan ddylanwadu ar y ffordd yr ydym yn meddwl, yn ymddwyn ac yn cysylltu â'n cymunedau.
- Mae'r elfennau hyn yn cael eu trosglwyddo drwy genedlaethau, gan ddarparu parhad a siapio'r ffordd yr ydym yn profi diwylliant.
- Mae agweddau diriaethol ar dreftadaeth, tirweddau, adeiladau ac amgylchoedd ffisegol hefyd yn cyfrannu at hunaniaeth drwy ein hangori yn ein lle a darparu ymdeimlad o sefydlogrwydd a pherthyn. Maent yn ffurfio rhan o'r sefyllfaoedd bob dydd y mae bywyd yn datblygu ynddynt ac yn helpu i atgyfnerthu gwerthoedd a hanes a rennir.
- Gyda'i gilydd, mae'r elfennau hyn yn ganolog i ddeall ein hunain a'n cynefin, gan lunio nid yn unig **ble'r** ydym, ond hefyd **sut** yr ydym yn byw a **phwy** yr ydym yn deall ein hunain i fod.

Adnoddau pellach

Y Wisg Genedlaethol Gymreig

Tony Curtis, *Wales, The Imagined Nation: Studies in cultural and national identity* (Pen-y-bont ar Ogwr, 1986).

Helen Forder, *High hats and harps: The Life and Times of Lord and Lady Llanover* (Tonyandy, 2013).

Chris S. Stephens a Catrin Beard, *Y Wisg Gymreig Draddodiadol = The Traditional Welsh Costume* (Llandysul, 2014).

Catrin Stevens, *Welsh Costume and the Influence of Lady Llanover* (Aberystwyth, 2003).

Tirwedd

D. H. Alderman et al, 'Place, Naming and the Interpretation of Cultural Landscapes', yn *The Ashgate Research Companion to Heritage and Identity* (2008, Arlein).

Gareth M. Davies a Peter Jones, *Wrexham Football Club, 1872-1950* (Stroud, 2000).

Marko Demantowsky, 'Landscape and Identity', *Public History Weekly*, 3 (2021), Arlein.

Eglwys Gadeiriol Tyddewi,
<https://www.stdavidscathedral.org.uk/cy>
(Cyrchwyd Mai 2025).

Lewis Holloway a Phil Hubbard, *People and Place: The Extraordinary Geographies of Everyday Life* (Llundain, 2014, fersiwn arlein).


Frances Lynch, *Prehistoric Anglesey : The Archaeology of the Island to the Roman Conquest* (Llangefni, 1991).

K. R. Olwig et al. (2008) "'Natural" Landscapes in the Representation of National Identity', yn *The Ashgate Research Companion to Heritage and Identity* (2008, Arlein).

UNESCO, Blaenavon Industrial Landscape.
<https://whc.unesco.org/en/list/984/>
(Cyrchwyd Mai 2025).

Jonathan M. Wooding, 'Recent Research at St Davids Cathedral', *Archaeological Journal*, 167 (2010), tt. 59-62.

Gweler Pennod 4 am wybodaeth bellach am ymchwilio i hanes eich cynefin chi ac adnoddau digidol defnyddiol.



Dydd Gŵyl
Dewi Hapus!



Happy
Dewi

PENNOD 2

Hanes Cymru a'r byd

Hanes Cymru a'r byd

Lowri Ann Rees

Gorolwg

Efallai bod hyn yn stereoteip annheg, ond ceir y ddelwedd nad oedd y Cymry, yn hanesyddol, yn mentro yn bell y tu hwnt i'w plwyfi, gydag ond y rhai mwyaf anturus yn mynd tu hwnt i'w ffiniau i chwilio am gyfleon e.e. gweler Cymry Llundain a chymunedau Cymreig Lerpwl. Serch hynny, cawn enghreifftiau o nifer helaeth o Gymry yn teithio dramor ac yn gadael eu marc ar gymdeithas, gyda'r olion dal i'w gweld hyd heddiw (e.e. Astudiaeth Achos 1).

Fe wnaeth y broses o fudo o Gymru gyflymu yn ystod y 19eg ganrif, gyda ffactorau oedd yn gwthio ond hefyd yn denu pobl i fudo. Ond i ble wnaeth y Cymry fudo? Ac mewn faint o niferoedd? Gwelwn bod profiadau'r Cymry'n adlewyrchu tueddiadau Prydeinig ac Ewropeaidd. Rhaid cofio hefyd tra bod nifer o bobl wedi dewis mudo, roedd eraill wedi eu gorfodi i fynd. Fel cosb am dorri'r gyfraith, dedfrydwyd nifer o Gymry i alltudiaeth i Awstralia a Tasmania.

O'r holl lefydd wnaeth y Cymry fudo iddynt, efallai y lleoliad mwyaf enwog, ac sydd wedi ei rhamantu, yw Patagonia. Ceir elfen grefyddol a chenedlaetholgar i'r stori, gyda'r ddelfryd o greu Cymru newydd. Ond ceir yma linc anghyfforddus gyda'r thema ehangach o goloneiddio. A oes modd dadansoddi 'Y Wladfa' fel enghraifft o'r Cymry yn gwladychu? Ceir gysylltiad pellach gyda'r thema wrth astudio gwaith grwpiau crefyddol a chenhadwyr o Gymru yn teithio trwy'r Ymerodraeth Brydeinig.

Ond mae'n bwysig nodi y gwelwn nid yn unig bobl, ond hefyd cynnyrch Cymreig yn lledu trwy'r byd, a hynny trwy'r broses ddiwydiannol e.e. gwlan o'r canolbarth, tun yn cael ei allforio i America, llechi o'r gogledd yn cyrraedd bob

ban byd, heb sôn am gyrhaeddiad glo, haearn, a copr o Gymru (trafodir mwy ar hyn yn Astudiaeth Achos 2).

Ynghlwm â'r thema yma, gwelir bod Cymru yn chwarae rôl flaenllaw yn y prosiect ymerodrol (*imperial project*). Mae hyn yn herio'r ddelwedd draddodiadol nad oedd y Cymry ynghlwm gyda'r broses 'Brydeinig' o goloneiddio, fel gwlad oedd wedi cael ei gwladychu a'i choloneiddio ei hun. Mewn gwirionedd, mae astudiaethau diweddar wedi dangos bod y Cymry mor gysylltiedig â'r ymerodraeth â'r Saeson, Albanwyr a'r Gwyddelod. Gwelwyd y Cymry'n rhan o fyddinoedd a'r llynges Brydeinig, yn gweithio fel gweinyddwyr trefedigaethol (*colonial administrators*) ac yn fasnachwyr e.e. trwy Cwmni India'r Dwyrain (*East India Company*). Roedd y Cymry hefyd ynghlwm gyda economi'r fasnach gaethwasiaeth (Astudiaeth Achos 2). Gwelodd nifer gyfleon i greu cyfoeth mawr trwy ecsbloetiaeth ymerodrol (*imperial exploitation*). Dychwelodd rhai i Gymru gan fuddsoddi eu harian mewn tir ac ystadau tiriog, wrth iddynt geisio dringo yn gymdeithasol a sefydlu eu hunain ymysg y bonedd.

John Hughes a Yuzovka (Hughesovka)

Cymro ynghanol y chwyldro diwydiannol yn yr Wcráin

Yn achos John Hughes, ceir enghraifft o Gymro yn mudo yn y cyd-destun diwydiannol. Mae stori Hughes yn hynod. Stori unigolyn wnaeth godi yn gymdeithasol drwy'r broses ddiwydiannol. Aeth â'i sgiliau gydag ef dramor, fel y gwnaeth nifer o weithwyr diwydiannol yn ystod y 19eg ganrif, ond fe wnaeth hefyd lwyddo i drawsnewid cymuned. Crëodd gyfleon i Gymry weithio yn y gweithfeydd newydd sefydlodd yn yr Wcráin, ac mae olion diwydiant dal yna hyd heddiw, lle mae cyfraniad Hughes i'r chwyldro diwydiannol yna wedi ei goffáu trwy cofeb iddo.

Ganwyd John Hughes oddeutu 1814-16 ym Merthyr Tydfil, oedd erbyn hynny yn ganolfan ddiwydiannol arwyddocaol. Roedd ei Dad yn gweithio yng ngweithfeydd haearn Cyfarthfa, cyn symud i weithio yng Nglyn Ebwy. Mae'n debyg i'r John Hughes ifanc ddilyn ei Dad i'r diwydiant haearn, a bu'n llwyddiannus yn dringo i fyny, gan gyrraedd swyddi uchel erbyn dechrau'r 1840au yng ngweithfeydd Uskside yng Nghasnewydd. Bu'n flaenllaw yn datblygu'r gweithfeydd, gan gynnwys rhoi patent ar ddyfeisiadau platio arfau, offer rhyfel ac arfogaeth. Ymddengys bod y gweithfeydd yn ganolog i'w fywyd, gan ei fod ef, ei wraig Elizabeth a'u hwyth plentyn yn byw yn agos gerllaw.

Yn 1859 symudodd y teulu i Lundain, efallai er mwyn i Hughes ganfod cyfleon pellach. Yn sgîl ei brofiadau yn ne Cymru, llwyddodd i ennill swydd uchel, a wedyn dod yn gyfarwyddwr y *Millwall Engineering and Shipbuilding Company* yn Thameside. Yn yr 1860au roedd y Llynges Frenhinol wrthi yn adeiladu llongau rhyfel stêm wedi'u gorchuddio â haearn (*iron clad*) ac wedi'u harfogi â gynnuau mwy mewn maint a phwysau.

Yma bu Hughes yn gyfrifol am gyflwyno technegau newydd yn y maes a gwelwyd y cwmni yn ennill clod yn sgîl hyn, gan hefyd ennill cystadleuaeth i osod platiau dur (*armour plate*) ar gyfer y llynges Brydeinig. Fe wnaeth enw da'r cwmni, ond hefyd enw da Hughes am fod yn ddyfeisgar a mentrus, ledu mewn cyfnod pan oedd nifer o wledydd yn canolbwyntio ar arfogi. Clywodd llywodraeth Rwsia am enw da'r cwmni a gwahoddwyd Hughes i St Petersburg i drafod platio cadarnle llyngesol (*naval fortress*) yn Kronstadt yn y Baltig. Gwnaethant hefyd gynnig i Hughes sefydlu gweithfeydd metal (*metallurgical plant*) mewn safle o'i ddewis rhywle yn Rwsia. Yn dilyn archwiliadau yn ne Ukraine, awgrymwyd bod symiau sylweddol o fwynau haearn glo yn y Donbass. Pendefynodd Hughes fentro. Buan wnaeth ganfod mai tir tlawd a gwastatir diffaith oedd yna. Roedd y gaeafau yn galed, gyda'r boblogaeth ar wasgar ac yn wynebu tlodi enbyd. Prynnodd yr hawl i adeiladu gweithfeydd a sicrhau'r hawliau cloddio (*mineral rights*) pe byddai'n llwyddiannus. Wedi arwyddo cytundeb gyda llywodraeth Rwsia, ar 3 Gorffennaf 1869 cafodd y *New Russia Company Limited* ei gofrestru yn Llundain.

Roedd Hughes mewn safle da i ecsbloetio'r deunydd crai, ac wedi dewis safle lle'r oedd digon o le i'r gymuned dyfu o gwmpas y gweithfeydd. Nawr roedd angen dod â gweithwyr sgiliedig i mewn. Er i'r bobl leol gael eu hyfforddi, roedd angen arbenigwyr. Felly dyma Hughes yn dod â nhw o Gymru. Trefnodd Hughes bod tua cant o fwyngloddwyr a gweithwyr haearn arbenigol, y rhan fwyaf o'r rhain wedi'u recriwtio o gymoedd diwydiannol De Cymru, yn dod i'r Donbass. Parhaodd y broses yma o fudo y tu hwnt i ddyddiau cynnar y cwmni, wrth iddyn nhw gyflogi gweithwyr arbenigol o Brydain tan 1917.

Roedd presenoldeb Hughes yn y fenter yn flaenllaw, cymaint fel i'r gweithfeydd cael eu hadnabod fel 'Ffatri Hughes'. Tu hwnt i'r gweithfeydd, gosododd Hughes ei stamp ar y gymuned a ddatblygodd o'i gwmpas. Bu'n allweddol yn sefydlu tref gwmni Yuzovka (neu Hughesovka), oedd wedi ei henwi ar ei ôl. Fel dyn ifanc, wrth weithio yng ngweithfeydd teulu'r Crawshays, gwelodd yn Cyfarthfa sut

oedd y teulu yn rheoli'r gweithlu, yn darparu gwasanaethau iechyd ac addysg ac yn gosod rheolau ynglŷn âg ymddygiad, nid yn unig yn y gwaith, ond hefyd yn y gymuned ehangach a'r cartref. Fe wnaeth Hughes fabwysiadu'r syniadaeth yma yn Yuzovka. Adeiladodd dai ar raddfa eang ar gyfer ei weithwyr. Bu'n hyrwyddo glendid a bywyd cymedrol er mwyn atal llediad afiechydon megis colera, dysenteri a teiffws, ond hefyd, yn fwy ymarferol, bu'n buddsoddi mewn ysbytai. Sefydlodd heddlu a gwasanaeth tân yn y dref yn ogystal.

Ar y cyfan, roedd Hughes yn talu cyflogau teg i'w weithwyr, cyflogau oedd yn uwch na'r cyfartaledd. Roedd digon o gyfle i weithio dros ben oriau pan oedd digonedd o waith ar gael, ond byddai'n torri oriau'r gweithwyr adeg amseroedd llai prysur er mwyn ceisio sicrhau bod gwaith digonol i bawb, ac felly yn ceisio dal gafael ar gymaint o grefftwyr â phosib. Ond yn y gweithle hefyd roedd rheolau llym a chosbau am fod yn hwyr neu beidio â throï fyny i'r gwaith. Gofynnodd i'w weithwyr gadw'r un lefelau proffesiynol ag ef a'i feibion.



Llun: John Hughes, © [Wikipedia](#).

Mae'r llun isod o John Hughes yn cyfleu'r ddelwedd o ddyn Fictorianaid llwyddiannus. Mae'n gwisgo dillad da a'i wallt wedi ei steilio yn daclus. Mae'n eistedd yn gadarn gyda'i gefn yn syth. Mae'r ffaith ei fod wedi sefyll am lun stiwdio yn awgrymu ei fod yn awyddus i gyfleu delwedd llwyddiannus. Ceir tystiolaeth ei fod yn grediniol mai trwy weithio'n galed yr oedd llwyddo. Mae hyn yn cyd-fynd gyda syniadaeth Fictorianaid a gwerthoedd dosbarth canol yr oes.



Llun: Cartref John Hughes yn yr Wcráin. © [Wikipedia](#).

Mae'r llun uchod yn dystiolaeth pellach o'r balchder yn ei lwyddiannau a'r ysfa i ddangos ei bŵer a'i gyfoeth. Dyma lun o gartref y teulu Hughes ar droad yr 20fed ganrif. Yn debyg i'w amser yng Nghasnewydd, fe wnaeth Hughes a'i deulu fyw gerllaw'r gwaith. Yn y modd yma, roedd Hughes yn debyg iawn i'r meistri haearn Seisnig wnaeth sefydlu gweithfeydd yng nghymoedd diwydiannol de-ddwyrain Cymru. Fel nhw, fe adeiladodd dŷ mawr iddo ef a'i deulu gerllaw'r gweithfeydd, ond yn ddigon pell o'r gweithwyr. Roedd hyn i gyd yn dadofalaethol (*paternalistic*) iawn, gyda Hughes y tiffeddiannwr yn byw yn y plas yn cadw golwg ar ei weithlu. Roedd gan Hughes bŵer sylweddol dros y gymuned, yn enwedig gan nad oedd llywodraeth Rwsia yn cydnabod Yuzovka fel tref, ond yn hytrach fel aneddiad, felly doedd dim Cyngor Tref yn bodoli, oedd yn golygu mai Hughes oedd â'r pŵer i gyd.

Er iddo adael Cymru, fe wnaeth Hughes barhau i ymweld â'i wlad enedigol yn ystod ei fywyd, am resymau proffesiynol ond hefyd personol. Ond daeth diwedd siwrne bywyd Hughes yn 1889, pan fu farw ar 29 Mehefin tra'n ymweld â St Petersburg ar fusnes. Dychwelodd i Brydain i'w

gladdu, ond nid yng Nghymru. Cafodd ei gladdu ym medd y teulu ym mynwent West Norwood, Llundain.

Ceir dystiolaeth o gyfrifiad (*census*) 1921 yn dangos enghreifftiau o bobl yng nghymoedd diwydiannol de Cymru oedd wedi eu geni yn Hugheskova. Yn dilyn Chwyldro Rwsiaidd 1917, roedd nifer o weithwyr o dramor wedi gadael Rwsia, felly roedd rhai wedi dychwelyd i Gymru, lle'r oedd eu teuluoedd wedi dod yn wreiddiol. Gellir defnyddio'r cyfrifiad i olrhain hanes y bobl yma, a gwelir bod nifer yn parhau i weithio yn y diwydiannau trwm, megis y gweithfeydd haearn.

Nid Hughes oedd yr entrepreneur Prydeinig cyntaf yn Rwsia, ond beth sy'n hynod amdano yw ei fod ynghanol ei bumdegau pan wnaeth ddiwreiddio ei fywyd ef a'i deulu yn llwyr, gan deithio allan i Rwsia i sefydlu gweithfeydd a chymuned newydd sbon. Roedd nifer o ddiwydianwyr yn y Donbass yn berchnogion absennol, ond roedd Hughes yn ei gweld hi'n angenrheidiol bod yna i gadw llygad ar y gweithle a'r gweithwyr. Roedd Hughes yn barod yn llwyddiannus ym Mhrydain, ond yng nghanol oed fe benderfynodd ddechrau eto. Efallai atyniad yr her wnaeth ei ddenu, wrth iddo gael ei ysgogi gan bosibiliadau newydd wrth fentro. Fel cyfalafwr, roedd cyfle i greu elw. Byddai'r ysgogaeth yma yn cydfynd gyda'i ethos – roedd yn grediniol yng nghyfrifoldeb yr unigolyn i wella ei hun, fel y gwnaeth ef ei hun yn ddyn ifanc. Ond roedd tasg anodd o'i flaen wrth ymgysgu'r ymgyfarwyddo gyda'r dirwedd galed. Fe wnaeth ymroi ei hun i sefydlu'r gweithle, ond hefyd y gymuned dadol (*paternalist*) o'i chwmpas. Mewn cyfnwidiad am fod yn weithwyr proffesiynol a gweithgar, roedd Hughes wedi creu cymuned drefol fodern i'w weithwyr fyw ynddi, cymuned gyda gofal iechyd, addysg a pholisïau tai. Gwnaeth Hughes gydio yn y cyfle i sefydlu ei hun fel ffigwr tadol yn y gymuned, yn dosbarthu anrhegion i'w weithwyr yn y dyddiau cynnar (nid yn unig y gweithwyr o Gymru a Phrydain, ond hefyd y gweithwyr Rwsiaidd), a hyd yn oed fynychu achlysuron teuluol e.e. priodasau, bedyddiadau.

Yn dilyn marwolaeth John Hughes, parhaodd ei feibion i reoli'r gwaith, oedd wedi datblygu i fod yn un o fentrau diwydiannol mwyaf Rwsia. Ond gyda Chwyldro 1917 fe wnaeth y rhan fwyaf o weithwyr tramor y cwmni adael Rwsia. Serch hynny, fe wnaeth y fenter barhau ond gyda rheolwyr ac enw newydd. Parhaodd y gymuned, lle mae Donetsk heddiw, yn ganolfan ddiwydiannol bwysig. Fe wnaeth Hughes drawsnewid y darn yma o'r Donbass, ac wrth wneud, chwarae rhan flaenllaw yn y chwyldro ddiwydiannol yn y rhan yma o'r byd.

Diwydiant gwlan Cymru a chaethwasiaeth Gorthrwm a brethyn Cymreig

Mae 'na draddodiad a hanes hir yng Nghymru o wehydda yn y cartref, a mor gynnar â'r oesoedd canol roedd cynnyrch y broses, yn bennaf o dde Cymru, yn cael ei allforio tu hwnt i ffiniau'r wlad. Erbyn yr oesoedd canol hwyr un o'r prif fath o allforion o Gymru oedd gwlan. O'r 16eg ganrif ymlaen, daeth gwehyddiaeth yng nghanolbarth Cymru yn arwyddocaol yn economaidd. Serch hynny, un elfen o'r diwydiant hwn sydd heb gael cymaint o sylw yw'r ffaith i Gymru elwa'n economaidd o'r system gaethwasiaeth. Roedd y diwydiant gwlan gyda chyrhaeddiad rhyngwladol yn y 18fed ganrif, a cheir cysylltiadau rhwng ardaloedd gwledig Sir Feirionnydd a Sir Drefaldwyn â'r economi Atlantig.

Amcangyfrifwyd bod oddeutu 12 miliwn o Affricanwyr wedi eu cludo ar draws yr Atlantig i America a'r Caribî dros gyfnod o 350 mlynedd pan oedd Ewropeaid ynghlwm â'r fasnach gaethwasiaeth. O fewn y system yma o ecsbloetio, roedd masnachwyr Prydeinig yn defnyddio brethyn Cymreig i brynu a gwerthu caethweision. Byddai'r brethyn hefyd yn cael ei ddefnyddio i ddilladu caethweision oedd yn gweithio ar blanhigfeydd Ynysoedd y Caribî a thaleithiau'r De yn America. Gorfodwyd y caethweision yn America a'r Caribî i ymgymryd â gwaith corfforol caled, gwaith fyddai'n treulio eu dillad yn gyflym. Roedd perchenogion y planhigfeydd felly yn galw am ddillad o frethyn cryf a chadarn, ond a oedd hefyd yn blaen a heb addurn gan fod y broses o addurno dillad yn cael ei weld fel gweithred gwrthryfelgar (*sedition act*) a fyddai'n arwain at wrthryfel. Gwelir rhai taleithiau yn pasio deddfau yn gorchymyn caethweision i wisgo dillad plaen. Wrth bwysleisio y dylai dillad y caethweision

fod yn blaen, nodwyd yn benodol yn y *South Carolina Negro Act* (1735) bod brethyn Cymreig yn ddefnydd delfrydol ar gyfer eu dilladu.

Yn y cyd-destun lleol, roedd diwydiant gwlan y canolbarth yn cynnig cyfleon i weithwyr cymunedau gwledig Cymru. Roedd modd i ffermwyr tenant, llafurwyr a'u teuluoedd cyfan ennill ychydig o arian ychwanegol, incwm a fyddai'n angenrheidiol adeg cyfnodau economaidd caled e.e. pan fyddai cynydau yn methu neu dirwasgiad mewn amaeth. Erbyn canol y 18fed ganrif, gwelwyd nifer o nyddwyr (*spinners*) a gwehyddion (*weavers*) yn gweithio yn y cymunedau gwledig oedd yn cynhyrchu gwlan yn y canolbarth. Gwelwyd hefyd y boblogaeth yn tyfu yn sgil mewnlifiad o bobl yn chwilio am waith yn y diwydiant gwlan oedd yn brysur dyfu.

Byddai'r broses yn dechrau gyda chasglu'r defnydd crai, gyda merched a phlant yn chwarae rôl bwysig yn casglu'r gwlan yn ystod yr haf. Byddai'r gwlan yn cael ei gribo a'i nyddu, a'r brethyn yn cael ei wehyddu ar wŷdd llaw (*hand loom*) o fewn y cartref. Byddai'r brethyn yn cael ei drin, gyda'r prosesau olaf yn cael eu cwblhau yn y pandai (*fulling mills*) yn lleol. Wedyn byddai'r brethyn yn cael ei yrru i'r farchnad i'w werthu, fel arfer i'r trefi marchnad ar y ffin, yn bennaf yr Amwythig, ond hefyd Y Trallwng a Croesoswallt. Wedi'r holl waith caled o greu'r brethyn, ar ddiwedd y dydd y masnachwyr gwlan oedd yn pocedu'r rhan fwyaf o'r elw, ac nid y gwehyddwyr Cymreig. Un o'r prif masnachwyr gwlan oedd urdd (*guild*) Cwmni'r Brethynwyr (*Worshipful Company of Drapers*). Serch hynny, yn hwyrach ymlaen yn y 18fed ganrif, gwelwyd y masnachwyr o Lerpwl yn osgoi Cwmni'r Brethynwyr wrth yrru cynrychiolwyr i brynu'r brethyn yn uniongyrchol o Gymru. Fel yma, gwelir yr elw yn cael ei fuddsoddi yn lleol, gyda busnesau a threfi yn datblygu wrth i gyfoeth dreiddio mewn i'r ardal.

Gyrrwyd mwyafrif y brethyn a gynhyrchwyd yng nghanolbarth Cymru i'r Amwythig, gyda'r rhan fwyaf o'r cynnyrch yma'n mynd ymlaen i Lundain. Yn ddiweddarach, byddai'r brethyn yn cael ei yrru i Fryste a Lerpwl, gyda'r porthladdoedd yma'n allforio nwyddau i Affrica, America a'r Caribî. Prynwyd symiau enfawr o

frethyn Cymreig gan y *Company of the Royal Adventurers Trading into Africa* (adnabyddir wedyn fel yr RAC) i'w werthu i fasnachwyr Affricanaidd. Gyda twf yn y nifer o gaethweision, gwelwyd cynnydd cyfatebol yn y galw am frethyn i'w dilladu. Erbyn diwedd y 18fed ganrif, roedd y galw am frethyn Cymreig yn ei hanterth.

Cyfrifoldeb perchnogion y planhigfeydd oedd dilladu'r caethweision oedd yn gweithio'r tir, gyda'r *Barbados Slave Code* yn amlinellu'r disgwyliad iddynt ddarparu un set o ddillad bob blwyddyn ar gyfer y caethweision. Newidiwyd geiriad y côd fel bod disgwyl i'r perchnogion planhigfeydd ddarparu dillad oedd yn 'proper and sufficient', felly roedd hyn yn agored i berchnogion ddehongli eu hunain. I gadw costau mor isel â phosib, prynwyd brethyn wrth y llath gyda'r disgwyl i'r caethweision greu eu dillad eu hunain, yn hytrach na phrynu dillad parod. Serch hynny, roedd costau yn parhau i fod yn sylweddol, yn enwedig pan oedd angen dilladu cannoedd.

Nid yw'r cysylltiad rhwng brethyn Cymreig a chaethwasiaeth mor hysbys heddiw, ond doedd hyn ddim yn golygu ei fod yn gyfrinach mawr ar y pryd. Yn wir, ceir tystiolaeth mewn amryw o ffynonellau bod pobl yn gwybod bod brethyn Cymreig yn cael ei ddefnyddio i ddilladu caethweision. Ceir un enghraifft o hyn yn ysgrifau Thomas Pennant (1726-98), y teithiwr, naturiaethwr ac awdur o Sir y Fflint. Cyhoeddodd Pennant *Tours in Wales* rhwng 1778-83 fel tair cyfrol, wedi'u seilio ar sawl taith o gwmpas Cymru yn yr 1770au cynnar. Wrth deithio trwy ganolbarth Cymru, nododd Pennant:

The abundance of sheep, which enliven these hills, brought, at the time I visited the country, great wealth into it. The flannel manufacture, and that of a coarse cloth for the army, and for the covering the poor negroes in the West Indies, is manufactured in most parts of the county. It is sent and sold in the rough to Shrewsbury; a practice very contrary to the interest of the country.

Thomas Pennant, *A Tour in Wales*, cyfrol 2, t. 351.

Yn Ffigwr 2, gwelir dyfyniad pellach gan Pennant sy'n trafod y cysylltiad rhwng tref Amwythig a'r fasnach brethyn Cymreig. Eto, mae'n glir i le'r oedd llawer o'r brethyn yn mynd.

Ffigwr 2

There is in this town [Yr Amwythig] no manufacture considerable enough to merit mention; but it draws very great profit from those of *Montgomeryshire*. This place is the chief mart for them. About 700,000 yards of *Welsh webs*, a coarse kind of woollen cloth, are brought here annually, to the *Thursday* market; and bought up and dressed, that is, the wool is raised on one side, by a set of people called *Shearmen*. At this time only forty are employed; but in the time of Queen *Elizabeth* the trade was so great, that not fewer than six hundred - maintained themselves by this occupation. The cloth is sent chiefly to *America*, to clothe the Negroes; or to *Flanders*, where it is used by the peasants.

Thomas Pennant, *A Tour in Wales*, cyfrol 2, t. 397.

Gyda diwedd y Rhyfeloedd Napoleonaidd, roedd llai o frethyn Cymreig yn cael ei allforio a'i werthu ar farchnadoedd yr Atlantig. Erbyn yr 1830au a'r 1840au roedd y diwydiant gwlân yng nghanolbarth Cymru wedi dirywio yn sylweddol, ac yn allforio llai o gynnyrch. Gwelwyd tldi enbyd yn y cymunedau yn Sir Feirionnydd a Sir Drefaldwyn. Mae sawl rheswm posib am y dirywiad wedi eu cynnig, gan gynnwys y gystadleuaeth gyda marchnadoedd yn America, a diwedd caethwasiaeth yn y Caribî yn golygu bod y bobl oedd wedi eu caethiwo nawr yn cael dewis pa ddillad oeddent eisiau gwisgo. Yn lle'r brethyn gwlân trwm, roedd deunyddiau cotwm ysgafnach yn ddewis llawer mwy poblogaidd.

Mae'n bwysig nodi mai nid brethyn Cymreig oedd yr unig nwydd o Gymru gyda chysylltiadau â chaethwasiaeth. Yn wir, fe wnaeth haearn, copr a phlwm o Gymru chwarae rhan flaenllaw yn cyflenwi'r fasnach gaethwasiaeth. Felly, mae Cymru, a nwyddau o Gymru, yn rhan o hanes yr Ymerodraeth Brydeinig. Yn fwy diweddar mae haneswyr wedi taflu goleuni ar yr hanes yma, gan roi persbectif newydd ar rôl Cymru yng nghyd-destun yr Ymerodraeth Brydeinig a chaethwasiaeth. Maent wedi dangos sut oedd rhan wledig o Gymru wedi ei heffeithio gan gaethwasiaeth, a sut oedd Cymru hefyd yn rhan o rwydwaith fasnach fyd-eang wedi ei yrru gan gaethwasiaeth.

ASTUDIAETH ACHOS 3:

John Rowlands, neu Syr Henry Morton Stanley

Newyddiadurwr, Chwilotwr, Imperialydd

Ceir delwedd rhamantus o chwilotwyr (*explorers*) enwog y 19eg ganrif, gyda straeon o'u hanturiaethau yn destun llyfrau antur i blant ers hynny. Heb os nac oni bai, un o chwilotwyr mwyaf enwog Oes Fictoria oedd Syr Henry Morton Stanley (1841-1904).

Mae hanes ymdaith Stanley i 'ddarganfod' Doctor Livingstone wedi cyrraedd lefelau mytholegol, gan gynnwys geiriau honedig enwog Stanley wrth ddod wyneb yn wyneb â Livingstone yn Ujiji, ar lannau Llyn Tanganyika: 'Dr Livingstone, I presume?'. Portreadir y cyfarfod enwog yma yng ngeiriau Stanley ei hun, yn ei lyfr *How I Found Livingstone* (1872), ond hefyd drwy ddelweddau dychmygol, ac yn hwyrach fe wnaeth y cyfarfod enwog yma ysbrydoli ffilmiau Hollywood hyd yn oed. Ond pa mor hysbys yw gwreiddiau Cymreig Stanley?

Ganwyd Stanley ar 28 Ionawr 1841 yn Ninbych, ond cafodd ei enwi yn wreiddiol ar ôl ei dad, John Rowlands. Nid oedd ei rieni wedi priodi a threuliodd ei blentyndod cynnar yng ngofal ei daid, tad ei fam, tan iddo ef farw yn 1846. Talodd teulu ei fam i Stanley letya mewn bwthyn ger Castell Dinbych, ond flwyddyn yn ddiweddarach stopiodd y taliadau. Gyda neb yn fodlon ei gynnal, gyrrwyd Stanley yn blentyn chwech oed i'r tloty yn Llanelwy, lle dreuliodd bron i ddegawd. Yn y tloty derbyniodd Stanley ei addysg, ond cafodd y cyfnod caled yma, a'r ffaith ei fod yn blentyn anghyfreithlon wedi ei ddiarddel i'r tloty, ddylanwad sylweddol ar ei gymeriad – yn ffyrnig o uchelgeisiol ac yn weithgar, roedd eisiau profi ei werth i'r byd.

Gadawodd y tloty yn 1856, yn bymtheg mlwydd oed. Gweithiodd i'w gefnder fel disgybl-athro (*pupil teacher*) yn yr ysgol genedlaethol (*national school*) ym Mrynffordd, a wedyn gweithio i aelod arall o'r teulu oedd yn cadw fferm a thafarn ger Tremeirchion. Dwy flynedd yn ddiweddarach, teithiodd i Lerpwl yn y gobaith o ganfod swydd fel clerc, ond yn sgil diffyg cyfleon pellach, aeth i weithio fel cynorthwywr mewn siop ddillad a siop cigydd (fel *butcher's boy*). Ond, yn Rhagfyr 1858, gwelwyd Stanley yn teithio i America fel gwas caban (*cabin boy*) ar y llong *Windermere*. O fan hyn ymlaen mae trywydd ei fywyd yn newid. Tra'n America, mae'n dod yn ffrindiau gyda masnachwr cotwm o'r enw Henry Hope Stanley, yn wreiddiol o Stockport ond wnaeth fudo i America a sefydlu busnes masnachu llewyrchus ar hyd y Mississippi. Mewn ffordd fe wnaeth Henry Hope Stanley fabwysiadu'r dyn ifanc, ei helpu i ddatblygu ei addysg, a rhoi swydd gyda chyfrifoldebau iddo ar ei blanhigfa yn Arcola. Dyma pryd mae'n mabwysiadu'r enw Henry Stanley, wrth iddo ddechrau'r broses o ailddyfeisio'i hun, yn creu persona newydd i'w hun. Mae'r John Rowlands Cymreig yn trawsnewid i'r Henry Morton Stanley Prydeinig.

Ymladdodd Stanley ar y ddwy ochr yn ystod Rhyfel Cartref America (*American Civil War*). Tra'n America cyflogwyd ef fel newyddiadurwr annibynnol (*freelance journalist*) yn ysgrifennu am ei deithiau. Gyda'i broffil fel newyddiadurwr yn tyfu yn sgil ei adroddiadau lliwgar, cafodd y cyfle i adrodd ar ymdeithiau Prydeinig yn Affrica. Ond, yr hyn ddaeth â Stanley i enwogrwydd oedd ei daith i 'ddarganfod' y chwilotwr a'r cenhadwr, David Livingstone, oedd yn teithio yn Affrica er mwyn canfod tarddiad yr Afon Nîl. Gyrrwyd Stanley gan olygydd y *New York Herald* i ganfod Livingstone a'i gyfweld, gan fod neb wedi derbyn unrhyw ohebiaeth ganddo ers sawl blwyddyn.

Ar hyd y daith, fe wnaeth Stanley gyfarfod â bachgen ifanc o'r enw Kalulu, ddaeth yn ôl gyda Stanley i Loegr fel gwas.



Llun: Henry Morton Stanley a Kalulu. © [Wikimedia Commons](#).

Fe wnaeth Kalulu ymddangos mewn nifer o ffotograffiau stiwdio gyda Stanley. Sylwer ar gefndir y llun a'r gwrthrychau wrth eu traed - mae'r cefndir a'r casgliad o blanhigion a cherrig wedi eu trefnu i gyfleu tirwedd dychmygol Affrica. Mae Stanley wedi gwisgo fel y stereoteip o'r chwilotwr, yn gwisgo'r helmed haul (*pith helmet*), côt a throwsus lliw hufen, a bŵts uchel lledr. Ond, yn fwy na hynny, dyma'r union ddillad roedd Stanley yn honni iddo wisgo pan wnaeth gyfarfod Livingstone. Mae'r llun yn ceisio dal Stanley yn y foment fawr yna, y foment wnaeth e'n enwog. Mae Kalulu yn sefyll tu ôl iddo, yn cael ei bortreadu fel y gwas ufudd, tra bod Stanley yn ceisio creu delwedd arwrol a dewr, gyda gwn yn ei law mae'n edrych yn wylidwrs.

Wedi dychwelyd i Brydain mae'r daith yn cael ei chwestiynu. Hefyd, mae cefndir Stanley, gan gynnwys pwy oedd ei rieni, yn cael ei gwestiynu yn y wasg. Cafodd Stanley ei feirniadu a'i gyhuddo o fod yn ffug: nid yn wyddonydd nac yn ŵr bonheddig. Serch hynny, bu ei lyfr *How I Found Livingstone* yn lwyddiant mawr, er i'r nyrs enwog Florence Nightingale ddisgrifio'r gyfrol fel 'the very worst book on the very best subject'.

ever saw in my life'. Hwylodd Stanley i America gyda Kalulu ar daith ddarlithio i hyrwyddo'r llyfr.

Fe wnaeth y wasg Brydeinig bortreadu taith Stanley ar draws Affrica i fapio daearyddiaeth y cyfandir, rhwng 1874-77, fel ymdaith dreisgar, dim mwy na thaith ymchwil drwy ryfela (*exploration by warfare*). Dychwelodd Stanley i Africa unwaith yn rhagor yn sgil brenin Gwlad Belg, Leopold II. Yno mae'n cymryd rhan yn y 'scramble for Africa' ac yn flaenllaw yn sefydlu'r *Congo Free State*, sy'n arwain at yr erchyllterau oedd i ddilyn.

Mae tipyn o ddadlau ynglŷn â chyfraniad Stanley. Tra bod rhai yn cydnabod iddo wneud canfyddiadau sylweddol wnaeth ateb nifer o gwestiynau e.e. daearyddiaeth y llynnoedd mawr, tarddiad yr Afon Nîl, mae eraill yn tynnu sylw at ei ddulliau treisgar wnaeth niwlio'r ffiniau rhwng daearyddiaeth a ryfela.



Llun: Cofeb Stanley yn Ninbych. © Lowri Ann Rees.

Felly, pam mae person gydag etifeddiaeth (*legacy*) mor broblemus wedi ei anrhydeddu gyda cherflun ohono mor hwyr â 2010? Os mai cydnabod man geni Stanley yw bwriad y cerflun yn Ninbych (llun isod), rhaid cofio bod Stanley wedi cael plentynod anodd yng Nghymru, a'i fod wedi ysgrifennu am y cyfnod yma mewn ffordd negyddol iawn. Gymaint oedd y trawma, aeth ati i gelu'r gwirionedd a chreu hunaniaeth newydd i'w hun, gan gynnwys newid ei enw yn llwyr. Felly, mae'n annhebygol byddai wedi edrych nôl ar Gymru gydag atgofion melys. Mae'n cael ei ddarlunio yma yn estyn llaw allan, yn dal y foment cyn iddo gofleidio Livingstone wedi ei 'ddarganfod'. Mae'r gofeb felly yn cydnabod ei weithred enwog wrth gyfleu'r ddelwedd ohono fel yr anturiaethwr arwrol.

Ond yn ddiddorol iawn, nid dyma'r unig gofeb lleol i Stanley. Ceir hefyd gofeb trawiadol mewn ffurf obelisc (*obelisk*) gerllaw yn Llanellwyr, lle treuliodd Stanley ei blentynod yn y tloty. Cafodd hwn hefyd ei godi mor ddiweddar â 2011. Mae'r gofeb yn dangos golygfeydd o fywyd Stanley, yn dechrau gyda'i enedigaeth ar y gwaelod, ac yn arwain i fyny i'w farwolaeth ar y top, y delweddau yma wedi eu darparu gan blant ysgol yr ardal leol. Ar frig yr obelisc ceir gopi bychan o ddelw Congolaidd (*Congolese*). Mae'r neidr sy'n ymdroelli o amgylch yr obelisc yn symbol Congolaidd o obaith a ffrwythlondeb. Mae'r holl gyfeiriadau at y Congo yn broblemus ynddo'i hun, oherwydd cynlluniau Stanley gyda'r Brenin Leopold II i ecsplotoio adnoddau naturiol y Congo, a'r modd y gwnaeth y gweithgareddau yma arwain y ffordd at yr erchyllterau a fu yn y Congo.

Mae deisebau wedi eu cyflwyno yn argymhell dymchwel y cofgolofnau i Stanley, ond ar hyn o bryd, y penderfyniad yw eu cadw. Yng nghyd-destun protestiadau *Black Lives Matter*, dymchwel cofgolofn y masnachwr caethweision Edward Coulston ym Mryste, a galw i ddymchwel cofgolofn yr imperialydd Cecil Rhodes yng Ngholeg Oriel, Rhydychen, mae'r cofgolofnau yma a godwyd ar gyfer ffigyrau dadleuol yn codi cwestiynau dwys am sut rydym yn delio gyda hanes trefedigaethol, ond hefyd, yn achos cofgolofnau Stanley, sut ydym yn trafod cysylltiadau Cymru gyda gweithgareddau imperialaidd.



Llun: Cofeb Stanley yn Llanelwy. © Lowri Ann Rees.

Cipolwg o'r Bennod

- Er bod ystrydeb nad oedd y Cymry'n hanesyddol yn bobl oedd yn mentro'n bell o'u cynefinoedd lleol, mae llawer o dystiolaeth yn plethu unigolion o Gymru, a chynnyrch o Gymru, gyda'r byd y tu hwnt.
- Yr enghraifft enwocaf, o bosibl, o fudo yw Patagonia, ond 'roedd gan y Cymry bresenoldeb hefyd mewn nifer fawr o diriogaethau eraill, fel y gwelir yn astudiaethau achos y bennod yma.
- Roedd llawer o Gymry ynghlwm ag imperialaeth Brydeinig, a thrwy hynny y fasnach gaethwasiaeth.
- Golyga hyn fod astudio hanes Cymru a'r byd yn golygu delio gydag etifeddiaeth heriol imperialaeth a'r modd y mae hynny'n parhau i atseinio yn nhirlun Cymru yn yr 21ain ganrif e.e. trwy gofgolofnau.

Adnoddau pellach

Cymru a'r Byd

Aled Gruffydd Jones a Bill Jones, 'The Welsh world and the British Empire, c.1851-1939: an exploration', *Journal of Imperial and Commonwealth History*, 31:2 (2003), tt. 57-81.

Bill Jones, 'Representations of Australia in mid-nineteenth-century Welsh emigrant literature: *Gwlad yr Aur* and *Awstralia a'r Cloddfeidd aur*', *Cylchgrawn Hanes Cymru*, 23:2 (2006), tt. 51-74.

Bill Jones, 'Writing back: Welsh emigrants and their correspondence in the nineteenth century', *North American Journal of Welsh Studies*, 5:1 (2005), tt. 23-46.

Aled Gruffydd Jones, 'Gardens of Eden: Welsh missionaries in British India', yn Robert Rees Davies a Geraint H. Jenkins (gol.), *From medieval to modern Wales: historical essays in honour of Kenneth O. Morgan and Ralph A. Griffiths* (Caerdydd, 2004), tt. 264-80.

Joseph Seth Jones, *Dyddiadur Patagonia. Llyfrgell Genedlaethol Cymru* (Ffynhonnell Wreiddiol Arlein).

Andrew May, 'Mountain Views: Welsh Missionaries, Diaspora and Empire', *Cylchgrawn Hanes Cymru*, 25:2 (2010), tt. 239-250.

Rosemary Seton, 'Welsh women missionaries of the London Missionary Society in the nineteenth and twentieth centuries', *Journal of Welsh Religious History*, 7 (1999), tt. 108-18.

Lucy Taylor, *Global Politics of Welsh Patagonia: Settler Colonialism from the Margins* (Caerdydd, 2025).

John Hughes a Yuzovka

Emrys George Bowen, *John Hughes (Yuzovka), 1814-1889* (Caerdydd, 1978).

Susan Edwards, *Hughesovka: A Welsh Enterprise in Imperial Russia: An Account of John Hughes of Merthyr Tydfil, His New Russia Company, and the Town, Works and Collieries Which He Established in the Ukraine* (Caerdydd, 1992).

Susan Edwards, 'The Hughesovka research archive at Glamorgan record office', *Archives*, 20 (1993), tt. 61-64.

Susan Edwards, 'Hughes, John (c. 1816-1889), ironmaster and engineer', *Oxford Dictionary of National Biography* (23 Medi 2004) <https://www.oxforddnb.com/bangor.idm.oclc.org/view/10.1093/ref:odnb/9780198614128.001.0001/odnb-9780198614128-e-49171> (cyrchwyd 25 Tachwedd 2024).

T. H. Friedgut, 'John Hughes of Yuzovka: the motivations and moral code of a Welsh entrepreneur in Russia', *Llafur* 5:4 (1991), tt. 79-89.

Diwydiant gwlân Cymru a chaethwasiaeth

Chris Evans, *Slave Wales: The Welsh and Atlantic Slavery, 1660-1850* (Caerdydd, 2010).

Marian Gwyn, 'Merioneth wool and the Atlantic Slave Trade', *Cyfnodolyn Cymdeithas Hanes a Chofnodion Sir Feirionnydd*, 18:3 (2020), tt. 284-98.

J. Geraint Jenkins, *The Welsh Woollen Industry* (Caerdydd, 1969).

Charlotte Hammond (gol.), *Hanesion Cysylltiedig Gwlân Cymru a Chaethwasiaeth* (e-lyfr, Common Threads Press, 2023).

Charles W. J. Withers, 'Pennant, Thomas (1726-1798), naturalist, traveller, and writer', *Oxford Dictionary of National Biography*, 4 Hydref 2007, <https://www.oxforddnb.com/bangor.idm.oclc.org/view/10.1093/ref:odnb/9780198614128.001.0001/odnb-9780198614128-e-21860>, (cyrchwyd 24 Ebrill 2025).

Thomas Pennant, *A Tour in Wales*, 2 gyfrol (1778 a 1781).

Henry Morton Stanley

Felix Driver, 'Stanley, Sir Henry Morton (1841–1904), explorer and journalist', *Oxford Dictionary of National Biography* (23 Medi 2004) <https://www-oxforddnb-com.bangor.idm.oclc.org/view/10.1093/ref:odnb/9780198614128.001.0001/odnb-9780198614128-e-36247> (cyrchwyd 25 Tachwedd 2024).

'Africa explorer H M Stanley statue to stay in Denbigh', *BBC Wales News* (27 Hydref 2021) <https://www.bbc.co.uk/news/uk-wales-59069612> (cyrchwyd 25 Tachwedd 2024).



PENNOD 3

Hanes Cymru, ac amrywedd

Hanes Cymru ac amrywedd

Mari Elin Wiliam

Gorolwg

Yn ystod y 1960au a'r 1970au gwelwyd rhai haneswyr yn pwysleisio arwyddocâd astudio 'hanes oddi isod' neu 'hanes y bobl'. Beirniadaeth oedd hyn o'r modd traddodiadol o ysgrifennu am hanes, yn arbennig yn y sylw gormodol a roddwyd i elfittiau gwleidyddol a chymdeithasol mewn cymhariaeth â phobl dosbarth gweithiol. Arwyddocâd hyn oedd gwneud haneswyr yn fwy tebygol o daclo pobl a meysydd eraill oedd wedi'u anghofio gan hanes.

Tua'r un adeg gwelwyd protestiadau yn America, Prydain a nifer o wledydd gorllewinol eraill i wella ansawdd bywyd grwpiau oedd wedi'u hesgeuluso a'u diraddio gan gymdeithas. Roedd y rhain yn cynnwys ffeministiaid yn protestio am hawliau cyfartal i ferched; arweinwyr megis Martin Luther King yn galw am fwy o hawliau sifil i bobl ddu i herio'r hiliaeth mewn cymdeithas, ynghyd â grwpiau protest fel y *Gay Liberation Front* oedd yn cychwyn amlygu'n fwy milwriaethus y rhagfarnau a wynebai pobl hoyw. Yn raddol, ysgogodd hyn gnwd o haneswyr i ddechrau ystyried sut y gallen nhw roi 'llais i'r di-lais', gan gyfrannu ar yr hyn gaiff ei adnabod erbyn hyn yn hanes amrywedd.

Hanes Merched a Rhywedd (*Gender*)

Yn 1997 sefydlwyd Archif Menywod Cymru er mwyn gwarchod a chofnodi hanesion bywydau merched yng Nghymru. Mae'r Archif yn un fywiog iawn ac yn cyfrannu'n helaeth at sicrhau fod merched yn rannau amlwg o'r gydwybod hanesyddol yng Nghymru. Gellir cyfuno gwaith yr Archif gyda chyhoeddiadau arwyddocaol, megis llyfr Deirdre Beddoe, *Out of the Shadows* (2001) sy'n archwilio rôlau merched yng Nghymru yn ystod yr 20fed ganrif.

Gall canfod tystiolaeth hanesyddol am ferched yng Nghymru (fel mewn llawer o fannau eraill) fod yn fwy o sialens ar gyfer cyfnodau cynnar o hanes oherwydd prinder dogfennau ac arteffactau, sy'n adlewyrchu'r ffaith fod merched wedi'u cywasgu i'r sffêr domestig tra mai dynion oedd i'w gweld yn y sffêrau cyhoeddus a gwleidyddol gan amlaf. Fodd bynnag, mae pethau'n dod dipyn yn rhwyddach wrth edrych ar y cyfnod modern, gyda hanes llafar yn fodd gwych o storio atgofion merched o'r 20fed a'r 21ain ganrif (gweler Pennod 4 am fwy ar sut i gasglu hanes llafar).

Dylid hefyd cofio fod sylw cynyddol wedi'i roi ers y 1990au i hanes rhywedd, sy'n symud y tu hwnt i edrych ar ferched yn ynysig i ystyried themâu fel gwrywdod (*masculinity*) mewn cymdeithas e.e. diwylliant gwrywaidd a'r glöwyr yng nghymoedd de Cymru. Mae hanes rhywedd hefyd yn asio gydag elfennau o hanes Cwîar a Traws (*Trans*), ac yn cydnabod fod profiadau o rywedd yn cael eu siapio nid yn unig yn fiolegol ond hefyd yn gymdeithasol, diwylliannol a thrwy alluedd (*agency*) unigolion.

Hanes LHDTCT+/ Cwŵar

Mae astudio hanes pobl LHDTCT+ yn medru bod yn heriol gan fod llawer o unigolion cwŵar wedi byw eu bywydau trwy orfod cuddio'i rhywioldeb. Un o'r prif resymau am hyn oedd fod perthynas rywiol rhwng dynion yn cael ei ystyried yn drosedd yng Nghymru a Lloegr o'r Oesoedd Canol nes 1967. Yn wir, hyd at ganol y 19eg ganrif gallai dynion gael eu dienyddio am berthynas o'r fath. Tra nad oedd lesbiaid yn torri'r gyfraith trwy gael perthynas â'i gilydd, y disgwyliad cymunedol a Christnogol oedd i ferched briodi dyn ac i fagu plant. Golygai hyn i stigma cymdeithasol a rhagfarn lethu bywydau llawer o lesbiaid, pobl deurywiol (*bisexual*) a thraws hefyd, gan gyfyngu ar eu holion mewn tystiolaeth hanesyddol.

Mae yna rai eithriadau, er hynny, gydag Eleanor Butler a Sarah Ponsonby, dwy ferch dosbarth-uwch o'r Iwerddon, yn cyrraedd gogledd-ddwyrain Cymru i fyw fel cwpl ddiwedd y 18fed ganrif. Daethant i gael eu hadnabod fel 'Ledis Llangollen' ac maent bellach yn symbolaidd o fewn hanes lesbiaeth ym Mhrydain. Felly hefyd mewn hanes Traws, gyda'r newyddiadurwraig a llenor Jan Morris o Lanystymdwy yn cael llawdriniaeth ym Morroco yn 1972 i ail-bennu ei rhywedd (*gender reassignment*), gan symud o fod yn James Morris i Jan. Adlewyrchodd ar hyn mewn gwaith hunan-gofiannol grymus, *Conundrum*, yn 1974.

Yn ystod y 21ain ganrif mae yna lawer mwy o hanes LHDTCT+ o Gymru yn cael ei ysgrifennu, gan gynnwys o bersbectif dosbarth gweithiol, megis yng ngwaith Daryl Leeworthy, *A Little Gay History of Wales* (2019) ac yng nghyhoeddiadau Noreena Shopland ar unigolion cwŵar o Gymru. Mae astudio hanes LHDTCT+ yn cwmpasu edrych ar newidiadau ym mhrofiadau pobl cwŵar ar draws y dosbarthiadau cymdeithasol, gan ymgorffori trafod rhagfarn, gormes, homoffobia a phrotest.

Hanes Pobl Dduon a Lleiafrifoedd Ethnig (*Black and Minority Ethnic, BAME*)

Yn gynnar yn yr 21ain ganrif cyhoeddwyd dau lyfr pwysig o ran deall hanes a phrofiadau pobl dduon a lleiafrifoedd ethnig yng Nghymru: *Sugar*

and Slate gan y gymdeithasegwraig Charlotte Williams, ac *A Tolerant Nation? Exploring Ethnic Diversity in Wales*, wedi'i gyd-olygu gan Williams a'r haneswyr Neil Evans a Paul O'Leary. Anogodd y gweithiau hyn lawer mwy o ystyriaeth o bwysigrwydd amrywiaeth ethnig i'r gorffennol Cymreig, gan hefyd arddangos y rhagfarn ac hiliaeth yr oedd pobl dduon wedi'u hwynebu yn hanesyddol yng Nghymru.

Mae'r mwyafrif o hanes pobl dduon yng Nghymru yn archwilio'r canrifoedd o'r 18fed ganrif ymlaen, gyda stori'r garddwr John Ystumll yn yng nghyffiniau Cricieth yn ei wneud yn un o'r dynion du cyntaf i gael ei gofnodi yng Nghymru. Er mai hanes digon cadarnhaol sydd am John Ystumll, yn anffodus mae gymaint o orffennol pobl dduon yng Nghymru wedi'i lethu gan imperialaeth, caethwasiaeth a hiliaeth, yn union fel mewn rhannau eraill o Brydain. Mae hynny'n wir i grwpiau ethnig eraill hefyd. Profodd yr Iddewon yng Nghymru, er enghraifft, wrth-semitiaeth, erledigaeth a therfysgoedd gwrth-Iddewig, megis yn Nhreddegar yn 1911.

Bellach mae achlysuron rhyngwladol fel Mis Hanes Pobl Dduon a gweithgareddau Race Council Cymru yn ffyrdd o ddiogelu hanes amrywiaeth ethnig yng Nghymru, gan ei osod yn elfen ganolog i Gymreictod yr 21ain ganrif.

Pan yn edrych ar hanesion amrywedd dylid bod yn barod i weld y croestorri rhwng gwahanol brofiadau e.e. pobl cwŵar sydd hefyd yn dod o leiafrif ethnig ac yn ddosbarth gweithiol. Dylid cofio hefyd fod amrywedd yn cwmpasu hanes anabledd, sydd wedi cychwyn datblygu o ddifrif fel maes ymchwil yn ystod yr 21ain ganrif. Mae haneswyr anabledd yn edrych ar wahaniaethau yn y modd mae cyrff a meddyliau pobl yn gweithredu, a sut mae cymdeithas yn ymateb i hynny. Gall hyn gynnwys astudio bywydau pobl a gollodd rannau o'u cyrff mewn rhyfelodd neu ddamweiniau diwydiannol mewn llefydd fel chwareli llechi gogledd-orllewin Cymru.

Mewn gwirionedd, mae hanes amrywedd yn fodd o barchu, storio a chofio hanesion pobl sydd wedi dioddef o ragfarn, ac o'r herwydd wedi cael eu hesgeuluso gan hanes traddodiadol. Bydd y tair astudiaeth achos yn y bennod yma yn awgrymu dulliau o archwilio hanesion amrywedd sy'n plethu cynefinoedd Cymru gyda themâu byd-eang.

Hanes Rhywedd a Chofgolofn Enwogion Llansannan

‘The monument to the celebrities of Llansannan’ ‘Welsh Worthies’ ‘Remarkable Men of Llansannan’

O'r penawdau papur newydd yma yn 1899 mae'n amlwg fod y wasg Gymreig wedi gwirioni'n lân ar y syniad o godi cofgolofn 'enwogion' ym mhentref Llansannan, Bro Aled, yng ngodre Mynydd Hiraethog. Gwariwyd aceri lu o brint yn Gymraeg a Saesneg, yn y gogledd a'r de, yn canu clodydd y pentref a'r pump unigolyn fyddai'n cael eu coffáu yn y dyluniad gan y cerflunydd o Gaerdydd, Goscombe John.

Bellach mae'r gofgolofn hon yn nythu yng nghanol y pentref ers dros 125 o flynyddoedd, a'r 'Remarkable Men' yn parhau i gael eu brolio fel prawf o fri diwylliannol a moesol nodedig Llansannan. Gweler, er enghraifft, wefan Cyngor Cymuned Llansannan sydd â thudalen i ddathlu'r golofn, ynghyd â'r defnydd o enwau'r pump i addurno'r pentref adeg Eisteddfod Genedlaethol Llanrwst 2019.

Heb os, fel beirdd, ysgolheigion a phregethwyr dylanwadol mae Tudur Aled, William Salesbury, Henry Rees, Gwilym Hiraethog ac Iorwerth Glan Aled oll yn gwbl haeddiannol o sylw hanesyddol. Ond, mae symboliaeth y gofgolofn fel gwrthrych cyhoeddus yn llawer mwy problematig. Gyda cherfluniau o gaethfasnachwyr ac imperialwyr hiliol (Thomas Colston, Thomas Picton, H. M. Stanley...Gweler Pennod 2) wedi dod o dan y lach ers y protestiadau Bywydau Du o Bwys yn 2020, byddai'n rhwydd teimlo ychydig bach yn *smug* yn Llansannan (ac mewn nifer

o ardaloedd eraill o Gymru) fod y gofgolofn leol yn un rinweddus a phositif, wedi'i cherfio ag enwau llenorion ac amryfal Gristnogion wnaeth gyfraniadau gwladgarol Cymreig o'r cyfnod Modern Cynnar hyd at Oes Victoria. Digon teg. Digon saff. Digon parchus.

Ond, fel y dadleuodd y cymdeithasegwr Stuart Hall yn ei waith *Representation*, dylai'r gwyliwr fod â'r awch i weld mwy na'r hyn sy'n amlwg i'r llygad noeth. Er enghraifft, wrth edrych ar wrthrych fel cofgolofn Llansannan mae dwy dasg. Y dasg rwyddaf yw darllen beth sydd yno: morwyn Gymreig yn plethu coron o flodau ar blin o dan enwau pump o 'arwyr'. Y dasg anoddach yw darllen beth sydd DDIM yno: pwy sy'n cael eu tanseilio, eu heithrio a'u llusgo i ebargofiant...

Er mor chwithig yw haeru fod menywod yn cael eu hesgeuluso o gofgolofn 'merch fach' Llansannan, ni ellir osgoi naws batriarchaidd (system gymdeithasol sydd yn israddio merched) y dyluniad. Nid menyw rymus, hyderus a bortreadir, ond yn hytrach geneth wylaidd, ddarostyngol sydd yn derbyn ei lle islaw y 'celebrities' gwrywaidd. Tra gellid dirnad ei bod yn cynrychioli cymysgfa o'r awen/ nodweddion y dduwies Geltaidd Ceridwen/ ffrwyth daear Cymru, ei rôl yn y pen draw yw mawrygu'r dynion a restrir ar y golofn, a, thrwy hynny, atgynhyrchu rolau rhywedd (*gender roles*) 'traddodiadol' yn y gymdeithas ehangach.

Nid dyma'r unig ffordd mae'r gofgolofn yn hepgor arwyddocâd merched. Mae hefyd yn cyfleu'r ymdeimlad nad oedd yr un ddynes yn deilwng o gael ei henw ar golofn y 'Welsh worthies': nid 'gwaith' merched oedd barddoni, pregethu ac arwain, roedd y pŵer hwnnw yn nwylo dynion. Y broblem gyntaf gyda hyn yw'r potensial i anghofio unrhyw ferched llengar oedd yn hanu o Fro Aled. Yr ail broblem, a'r un mwy difrifol, yw fod y patrwm hwn yn cyfrannu at ddifrio'r hyn mae Eluned Gramich wedi'i alw'n 'waith anweledig' merched, sef y 'defodau domestig' sy'n 'cadw ein cymdeithas i fynd.'

TVDVR ALCD
WILLIAM SALESBURY
HENRY REES
1797 — 1869
GWILYM HIRACHOG
1802 — 1883
IORWERTH GANAIED
1819
1867



Pam ddim clodfori y mamau tlawd oedd yn geni plant flwyddyn ar ôl blwyddyn, yn ymbalfalu'n arwrol i'w bwydo nhw a'u gŵyr, ac yn risgio'u hiechyd? Mae'n frawychus chwilio trwy adnodd digidol *Papurau Newydd Cymru Arlein* am 'Llansannan' yn y 19eg ganrif a gweld cymaint o ferched oedd yn marw ar enedigaeth. Beth am Margaret Jones, Llansannan, dynes feichiog a'i dau o blant a orfodwyd i mewn i Dloty (*workhouse*) Llanelwy jysd cyn Nadolig 1888? Adroddwyd 'On the same evening the woman was confined of a third child...Her husband John Jones was arrested on Saturday and was sent to gaol.' Nid oedd bywydau caled o'r fath yn eithriadol yn y cyfnod hwn, ond mae'r merched dosbarth gweithiol hyn, yn anffodus, wedi llithro o'n dwylo.

Mewn gair coffa yn y *Rhyl Journal* yn 1903 i ail wraig y bardd lorwerth Glan Aled (un o 'arwyr' y golofn) amlinellwyd fod '...Mrs Roberts yn ddynes ddeallus, dyner, garedig a gofalus iawn, fel pe buasai wedi ei thori allan o bwrpas i fod yn wraig i fardd; ac arni hi yr ymddibynai'r fasnach.' Ar un llaw roedd yn ticio holl focsys 'benywaidd', dosbarth canol Oes Victoria, gan ymddwyn fel y wraig tŷ ddelfrydol er mwyn caniatáu i'w gŵr arddangos ei dalentau. Ond, ar y llaw arall roedd hefyd yn cael ei galw'n 'ddeallus' ac mae awgrym cryf fod y siop deuluol yn cael ei rhedeg yn bennaf ganddi hi: nodweddion byd busnes sy'n draddodiadol yn cael eu gweld fel rhai mwy 'gwrywaidd'. Fodd bynnag, nid oes cofnod o 'Mrs Roberts' ar gof golofn Llansannan, gyda'i hymdrechion a'i 'gwaith anweledig' yn cael eu barnu'n rhy gyffredin i gael eu dyrchafu'n gyhoeddus.

Disgrifiad y bardd Machraeth Môn o 'ferch fach' Llansannan oedd 'Colofn ardderchog Gwalia'. Yn wir, dyna oedd ei phwrpas, i ddyrchafu Llansannan fel un o bentrefi mwyaf nodedig Cymru, gan gyfrannu at ddelfryd Rhyddfrydwyr blaenllaw fel Lloyd George a Tom Ellis o amlygu cenedligrwydd Cymreig a 'phrofi' fod Cymru'n gwbl haeddiannol o fod yn rhan o Brydain ar drothwy'r 20fed ganrif. Yn hynny o beth, mae'n gynrychioliadol o'i chyfnod, ac yn arteffact arwyddocaol o'r herwydd. Fodd bynnag, mae angen llai o ffocws ar y gof golofn fel enghraifft o 'wychder' y pentref, a mwy o ymwybyddiaeth fod hanes pobl Llansannan yn ymestyn y tu

hwnt i enwau pump dyn dosbarth canol a delfrydau am burdeb moesol a diwylliannol.

Pan ddadorchuddiwyd y gof golofn ym Mai 1899, haerodd yr hanesydd J. E. Lloyd y byddai'n 'inspiration to the children of Llansannan for generations to come.' Er gwaethaf rhinweddau'r rhai a restrir arni, mae hefyd yn gof golofn batriarchaidd ac elftaidd sydd yn masgio realiti merched a dosbarthiadau gweithiol y fro.

Tasgau Trafod

- Adnabyddwch blaciau, meinciau coffa neu gof golofnau yn eich cymuned chi.
- Pwy sy'n cael eu cofio arnyn nhw? Pam 'da chi'n meddwl eu bod nhw'n cael eu cofio?
- Pwy sy'n cael eu anghofio? Pam?
- Pwy sy'n ymddangos amlaf ar wrthrychau cofio yn eich cynefin: dynion neu ferched? Beth mae hynny'n ddweud wrthym ni am rywedd a'r gymuned leol?

Hanes Cwîar: Henry Paget, 5ed Marcwis Môn (1875-1905)

'His Lordship as fond of dogs as jewels' oedd pennawd erthygl yn yr *Evening Express*, papur lleol yng Nghaerdydd, yng Nghorffennaf 1904, wrth drafod Henry Paget, 5ed Marcwis Ynys Môn. Disgrifwyd Paget ar arhosiad mewn gwesty yn Llundain wedi'i amgylchynu gan gŵn pedigri ac wedi'i wisgo mewn '...gorgeous dressing-gown of green and pink satin' ac yn mynegi am yr anifeiliaid 'I love them!...I love them! Isn't this a beauty?.'

Ar y pryd, 'roedd Henry Paget yn dirfeddiannwr mawr ac yn berchen ar stad ysblennydd Plas Newydd ar lannau'r Fencai, nid nepell o Lanfairpwll. Y disgwyliad i aristocrat o'r fath yn ei gyfnod oedd arddangos nodweddion 'gwrywaidd' milwrol, i ymddwyn mewn modd ceidwadol, cydnaws â'i statws cymdeithasol, ac i sicrhau etifedd i gynnal y stad i'r dyfodol. Wedi'r cwbl, crëwyd y teitl Marcwis Môn yn 1815 i anrhydeddu un o gyn-deidiau'r 5ed Marcwis, oedd wedi colli rhan o'i goes ym Mrwydr Waterloo ac wedi'i ddyrchafu'n arwr o'r herwydd. Mae'n annhebygol y byddai ef wedi gorweddian mewn gwesty'n datgan ei gariad at anifeiliaid anwes (wel, yn gyhoeddus o leiaf!).

Roedd y 5ed Marcwis yn sicr yn herio disgwyliadau ei gyfnod, gan danseilio syniadau normadol (*normative*) am rywedd a rhywioldeb (*sexuality*), sydd wedi cyfrannu yn yr 21ain ganrif at ei wneud yn eicon cwîar.

Dechreuodd amlygu'i hun yn 1898, sef y flwyddyn yr etifeddodd ei deitl a'i diroedd ar farwolaeth ei dad. Yn ystod y flwyddyn honno hefyd priododd berthynas iddo, Lilian Chetwynd, er iddi wahanu oddi wrtho brin wythnosau i mewn i'r briodas. Roedd awgrymiadau mai unig ddiddordeb cnawdol y Marcwis yn ei wraig oedd tynnu lluniau ohoni'n gwisgo gemwaith drudfawr a fawr ddim arall.




Llun: Y 5ed Marcwis ar dir Plas Newydd mewn gwisg wedi'i brodio'n gywrain. © Llun diolch i garedigrwydd Archifdy Prifysgol Bangor.

Yn wir, ei gariad at emwaith oedd un o seiliau tamchwa'r Marcwis, gyda'i or-wario eithafol yn arwain at arwerthiannau yn 1904 i geisio lleddfu'i ddyledion helaeth. Mae hanesion iddo brynu holl gynnwys siop emwaith ar fympwy fel rhodd i'w wraig newydd, ac yn 1901 'roedd ynghanol sgandal wedi iddo ddychwelyd i'w westy yn dilyn noson yn y theatr i weld fod un o'i *valets* wedi dwyn casgliad sylweddol o'i emwaith. Amcangyfrifwyd fod y rhain yn werth oddeutu £50,000 (bron i £4 miliwn yn 2024). Mewn un arwerthiant fis Rhagfyr 1904 'roedd 365 o'i binnau sgarff addurniadol ar werth, gyda'r rhain ar ffurf adar paradwys, cychod hwylio a hyd yn oed wystrys (*oysters*).

Yn fuan wedi iddo etifeddu Plas Newydd newidiodd y 5ed Marcwis enw'r lle i *Anglesey Castle* gan greu theatr ysblennydd i gynnal perfformiadau o ddramâu o'i ddewis.

Cydnabyddwyd y Marcwis am ddarlunio'r 'Ddawns Pili Pala', oedd yn gweddu ei ffrâm eiddil, a chafodd lysenw fel y 'Dancing Marquess'. Roedd wrth ei fodd yn cynnal sioeau poblogaidd megis *Aladdin*, gyda gwisgoedd gogoneddus wedi'u brodio â gemwaith yn ran fawr o'r apêl iddo fo a'r trigolion lleol a wahoddai draw i'r gynulleidfa. Mewn arwerthiant o gannoedd o'r gwisgoedd hyn ym mis Hydref 1904 disgrifiwyd creadigaeth *Le Roi de Fleurs* (Brenin y Blodau) fel un a gynhwysai glogynnau moethus gyda '... spangled tights, a crown, and an ostrich feather wand.' Cyfrannodd tynfa'r Marcwis at bethau hardd a theatrig at ei ddelwedd fenywaidd a thraws, yn enwedig gan y byddai'n aml wedi coluroi wyneb, yn gwisgo ffrogiau ac mewn penwisgoedd godidog. Disgrifiwyd ef yn cicio pêl i agor gêm bêl droed leol mewn clogyn ffwr, menyg gyda modrwyau ar y bysedd a thusw mawr o flodau ar ei frest. Tybiai'r *Weekly News* yng ngogledd Cymru mai 'delicate rose pink' oedd ei hoff liw, oedd yn fodd awgrymog o gyfleu'r hyn a dybiai'r papur newydd oedd elfennau 'merchetaidd' y Marcwis.

Roedd y Marcwis hefyd yn hoff o'r holl dechnoleg gyffrous oedd ar gael ar droad yr 20fed ganrif. Gwirionai ar gael tynnu ffotograffau ohono'i hun, gyda nifer ohonynt yn cael eu trosi i gardiau post a'u casglu gan bobl gyffredin. Yn wir, fel y gwelir yn y llun ar y chwith, yn Archifdy Prifysgol Bangor mae albymau o luniau o'r Marcwis yn modelu ei wisgoedd theatrig. Ei geir ef oedd ymhlith y cyntaf i gyrraedd lonydd cul Ynys Môn, ac adroddodd y *Llandudno Advertiser* yn 1902 fod ei *chauffeur* wedi derbyn tair dirwy am 'furious driving' mewn llai na mis. Digwyddai'r gor-yrru ar gais y Marcwis, oedd yn mwynhau teithio yn y sedd gefn gan arddangos dirmyg elftaidd tuag at reolau a chyfyngiadau. Er fod hoffter y Marcwis o geir yn un o'r elfennau mwyaf *macho* amdano, cyfunwyd hyn gydag adleisiau mwy benywaidd. Cafodd addasu un modur i chwistrellu persawr Parisiaidd wrth deithio trwy bentrefi Môn, a gwerthwyd crogaddurn bychan ffurf car o'i gasgliad gemwaith yn 1904 am £15 (gwerth dros £2,000 heddiw).



Llun: Y Sedd Marcwis yn un o'i geir. © Llun diolch i garedigrwydd Archifdy Prifysgol Bangor.

Nid oes tystiolaeth gadarn am rywioldeb y Marcwis, er i Montgomery Hyde – ymgyrchudd dros hawliau pobl hoyw – ei ddisgrifio yn 1970 fel ‘aristocratic homosexual’. Yn wir, nid oes prawf fod Paget wedi cael perthynas rywiol gydag unrhyw un, yn ddyn neu’n ddynes, a digon posibl ei fod yn anrhywiol (*asexual*). Fodd bynnag, fel y dywed yr hanesydd LHDTG+ Noreena Shopland, nid oes dwywaith ei fod yn rhan o hanes cwŵar Cymru, ac er i’w deulu ddinistrio llawer o ddogfennau’n dilyn ei farwolaeth, sicrhodd ei fywyd blodeuog ei fod wedi gadael cryn ôl i haneswyr mewn papurau newydd a ffotograffau.

Pan fu farw’r Marcwis yn 1905, cyn iddo gyrraedd 30 oed, nodwyd yn yr *Evening Express* fod y newydd wedi creu cryn dristwch yn lleol, ‘...as the marquess, despite his peculiarities, was much liked.’ Mae’r gair ‘peculiarities’ yn un arwyddocaol yma: yn cydnabod nad oedd y Marcwis wedi cydymffurfio â disgwyliadau cymdeithasol, ond hefyd yn tystio fod ei elfennau camp yn cael eu derbyn gan drigolion ardal Bangor a Môn. Sefyllfa wahanol a welwyd o fewn teulu Paget, gyda’r embaras ei fod wedi’u tynnu i erchwyn methdal yn arwain at angladd bychan a di-daro, mewn cyferbyniad trawiadol â’r modd rhwysgfawr y treuliodd y 5ed Marcwis ei oes fer.

Tasgau Trafod

- Eicon cwŵar neu gor-wariwr wedi’i sbwyllo: beth ydy’ch barn chi am y 5ed Marcwis?
- Pa nodweddion sydd wedi dod â’r 5ed Marcwis yn rhan o hanes cwŵar?
- Oes yna enwogion yn y 21ain ganrif sy’n byw bywydau tebyg i’r 5ed Marcwis?
- Pam fod edrych ar hanes cwŵar yn bwysig?



Tiger Bay : Shirley Bassey, 'Tri Caerdydd' ac hanes amrywiaeth ethnig

Llun: Shirley Bassey yn 1971. © Hawlfraint: [Wikimedia Commons](#).

Wrth grwydro atyniadau sgleiniog Bae Caerdydd mae'n hawdd anghofio sut yr oedd rhannau o'r tirlun yn gartref i gymuned aml-ethnig hynaf Cymru, a dyfodd wrth i'r Chwyldro Diwydiannol yng nghymoedd de Cymru greu galw am borthladdoedd i allforio glo. Tra'r oedd Caerdydd yn ehangu'n gyflym yn y 19eg ganrif, dechreuodd morwyr o Affrica, y Caribî a nifer o barthau eraill setlo'n y ddinas, gan gynyddu'n arbennig o amgylch y dociau ac ardal gyfagos Butetown: dyma oedd Tiger Bay. Er i nifer o adeiladau eiconig a chartrefi Tiger Bay gael eu dymchwel yn y 1960au, ac yna unwaith eto wrth i Fae Caerdydd gael ei ddatblygu o'r 1980au ymlaen, mae'r enw'n parhau i gynrychioli presenoldeb hunaniaethau bywiog ac aml-ddiwylliannol (*multicultural*) sy'n gwbl ganolog i ddeall y berthynas rhwng cynefinoedd Cymru a'r byd.

Ar un llaw, gall edrych ar hanes Tiger Bay ein tynnu tuag at straeon cadarnhaol am wrhydri, dyfalbarhad ac hefyd enwogrwydd.

Un o'r sêr rhyngwladol i hanu o'r ardal oedd y gantores Shirley Bassey, a anwyd yn 1937, gyda'i thad yn dod o Nigeria a'i mam o Swydd Efrog. Yn ystod y 1950au cynnar bu'n perfformio mewn clybiau a sioeau yng Nghaerdydd a Llundain, cyn dod i amlygrwydd ar lwyfannau yn America. Seliwyd ei statws eiconig fel cantores rhai o'r anthemau James Bond enwocaf, megis *Goldfinger* a *Diamonds are Forever* yn ystod y 1960au a'r 1970au. Er i Bassey ennyn cyfoeth a sylw sylweddol fel *diva* cerddorol, mae hefyd dal i gael ei hadnabod hyd heddiw fel 'The Girl from Tiger Bay': merch o gefndir aml-ethnig a ymlwybrodd o wreiddiau dosbarth gweithiol i ddod yn un o leisiau symbolaidd diwylliant poblogaidd (*popular culture*) Eingl-Americanaidd yr 20fed ganrif.

Yn 1999 dychwelodd i berfformio yn agoriad Stadiwm y Mileniwm yng Nghaerdydd wrth i Gwpan y Byd rygbi dynion gael ei gynnal yng Nghymru. Arweiniodd hyn at greu un o ddelweddau mwyaf trawiadol y cyfnod: Shirley Bassey mewn ffrog draig goch yn symboleiddio Cymru hyderus a chynhwysol (*inclusive*) ar droad y ganrif newydd.

Fodd bynnag, dim ond un haen o stori Tiger Bay yw Bassey, ac mae edrych ymhellach ar brofiadau pobl o'r gymuned yn annatod yn tynnu'n sylw at dlodi, rhagfarn a hiliaeth yng Nghymru. Fel y noda dau o haneswyr arwyddocaol Butetown, Glenn Jordan a Chris Weedon, erbyn diwedd oes Fictoria 'roedd 'tre'r morwr' (enw arall ar yr ardaloedd o amgylch dociau Caerdydd) yn cael ei gysylltu'n y meddwl poblogaidd â throedd, anfoesoldeb, puteindra a gor-yfed. 'Roedd delweddau o'r fath yn gyffredin i lawer o borthladdoedd a chymunedau dosbarth gweithiol ar y pryd, ac oherwydd aml-ethnigrwydd Butetown daeth hyn ynghlwm â safbwyntiau hiliol.

Yn ystod haf 1919 gwelwyd cyfres o derfysgoedd hîl ym mhorthladdoedd Casnewydd, y Barri a Chaerdydd wrth i densiynau godi pan ddychwelodd milwyr o'r Rhyfel Byd Cyntaf a beio morwyr o wledydd fel Yemen am gymryd eu swyddi. Fodd bynnag, heb os, 'roedd panic moesol hefyd yn rhan o'r terfysgoedd, gyda'r fflam yng Nghaerdydd yn cael ei danio gan ymosodiad ar griw o ddynion duon a'u gwragedd gwynion. Achosai rhyngbriodi ethnig (*ethnic intermarriage*) o'r fath gryn eiddigedd rhywiol ymysg rhai dynion gwyn, gan wneud hiliaeth yn gwbl ganolog i'r

gwrthdaro. Fel y noda'r hanesydd Neil Evans, arweiniodd y terfysg yng Nghaerdydd at grynhoi'r boblogaeth aml-ethnig fwyfwy yn niogelwch cymharol ardal Butetown, wrth i deuluoedd gael eu herlid o rannau eraill o'r ddinas.

Nid terfysgoedd yn unig, wrth gwrs, oedd yn dadlennu hiliaeth yng Nghymru. Gwelwyd hefyd hiliaeth sefydliadol (*institutional racism*) llechwraidd mewn perthynas â phlismaona a'r system gyfreithiol, gan arwain at gamweinyddiadau cyfiawnder (*miscarriages of justice*) mewn achosion yn ymwneud â pobl dduon, fel yn achos 'Tri Caerdydd'.

Ar Ddiwrnod Folant 1988 llofruddiwyd Lynette White mewn fflat ar James Street yn Butetown. Roedd yn lofruddiaeth ffiadd, gyda White wedi'i thrywanu bron i 70 o weithiau mewn achos a dynnodd sylw at fywydau bregus pobl oedd yn byw ar ymylon cymdeithas y brifddinas.

Bywyd caled oedd un White: 'roedd wedi cael ei chamdrîn yn rhywiol ers ei harddegau, ac yn un o buteiniad sefydliedig ardal Butetown pan fu farw a hithau ond yn 20 oed. Adeg ei marwolaeth roedd mewn perthynas â Stephen Miller, dyn du o Lundain oedd wedi symud i gylch Tiger Bay. Tra fod perthynas White a Miller yn un danllyd, gydag amheuan ei bod yn gweithio bron yn ddi-stop i ariannu'i gaethiwed i gyffuriau, nid oedd tystiolaeth fforensig yn clymu Miller i fflat y llofruddiaeth. Yn wir, nid oedd gan yr heddlu fawr ddim tystiolaeth gadarn yn erbyn neb, er fod llygad-dystion wedi disgrifio gweld dyn gwyn ar y stryd yn James Street gyda'i law yn gwaedu tua amser y llofruddiaeth.

Gan ei bod yn lofruddiaeth â phroffil uchel yn y cyfryngau 'roedd llawer o bwysau ar yr heddlu i'w datrys, ac ymddangosent fel pe baent yn nes at hynny yn Rhagfyr 1988 pan arestiwyd cyfres o ddynion o gefndiroedd aml-ethnig am ladd Lynette White. Cyhuddwyd pump ohonynt, Stephen Miller, Yusef Abdullahi, Tony Paris, Ronnie Actie a'i gefnder John Actie, o'r drosedd, er nad oedd nemor ddim prawf eu bod hyd yn oed yn grŵp ffrindiau. Yn Nhachwedd 1990 canfuddwyd Miller, Abdullahi a Paris yn euog gan y rheithgor a'u carcharu am oes. Rhyddhawyd yr Acties gyda dedfryd

ddi-euog yn dilyn cael eu cadw mewn carchar am bron i ddwy flynedd.

Ond, i lawer o ymgyrchwyr cyfiawnder troseddol 'roedd yr achos yn erbyn 'Tri Caerdydd' yn simsan tu hwnt. 'Roedd yn seiliedig ar gyffesiad annelwig gan Stephen Miller, a ddaeth yn dilyn oriau maith o gael ei holi gan yr heddlu a lle'r gwadodd dros 300 o weithiau ei fod wedi lladd White. Cafodd gweddi llwyr yr achos ei adeiladu ar sylwadau cymysgylid gan lygad-dystion annibynadwy oedd wedi'u gwasgu gan yr heddlu. Yn 1992 dyfarnodd y Llys Apêl yn Llundain fod yr euogfarnau (*convictions*) yn erbyn 'Tri Caerdydd' yn anfoddhaol ac fe'u rhyddhawyd. Gyda datblygiadau mewn technoleg proffilio DNA canfyddwyd y llofrudd go iawn dros ddegawd yn ddiweddarach, gan arwain at gyfaddefiad Jeffrey Gafoor yn 2003 mai ef oedd wedi lladd Lynette White.

Roedd y 'Pump Caerdydd' a gyhuddwyd o ladd White yn dargedau rhwydd i'r heddlu gan eu bod yn ddynion oedd gysylltiedig gydag is-fyd cyffuriau, troseddu a phuteinio Tiger Bay. Ni ellir osgoi y ffaith chwaith eu bod yn bobl o gefndiroedd aml-ethnig yn dioddef o broffilio o naws hiliol am eu cymuned yn Butetown, gan arwain at flynyddoedd o gael eu carcharu ar gam.

Mae astudio Tiger Bay nid yn unig yn ein hatgoffa o bwysigrwydd lleiafrifoedd ethnig a'u hamrywiaethau i Gymreictod, ond hefyd yn pwysleisio sut y dinistriodd rhagfarn hiliol fywydau rhai o drigolion Butetown yn ystod y cyfnod modern. Am bob clodfori ar seren fel Shirley Bassey mae'n rhaid cofio hefyd am ddioddefwyr fel 'Tri Caerdydd'.

Tasgau Trafod

- Pwy ydy'r pwysicaf i ni astudio o ran hanes aml-ethnigrwydd yng Nghymru: Shirley Bassey neu 'Tri Caerdydd'?
- Mae Tiger Bay'n sicr yn ein helpu i ddeall hanes amrywiaeth ethnig yng Nghymru. Ond, sut mae hanesion am yr ardal hefyd yn berthnasol i ddeall hanes pobl dosbarth gweithiol a hanes merched?
- Ydach chi'n meddwl fod Cymru'n genedl sy'n croesawu pobl o gefndiroedd ethnig amrywiol neu'n genedl hiliol?'
- Pa dri gair fuasai chi'n defnyddio i ddisgrifio Bae Caerdydd heddiw?

Cipolwg o'r bennod

- Yn draddodiadol ysgrifennwyd llawer o hanes Prydain a Chymru o safbwynt dynion gwyn heteronormadol (*heteronormative*) gan adlewyrchu pwy oedd â'r pŵer mewn cymdeithas.
- Ers y 1960au a'r 1970au mae ymgyrchoedd wedi bod i roi 'llais i'r di-lais' mewn hanes.
- Yn ystod y 21ain ganrif mae hanesion merched, y dosbarthiadau gweithiol, lleiafrifoedd ethnig, pobl LHDTG+ a'r anabl yn amlycach, wrth i faterion Cydraddoldeb, Amrywedd a Chynhwysiant ddod yn fwy canolog i gymdeithas. Er hynny, mae llawer iawn o fylchau'n parhau.
- Gall canfod ffynonellau gwreiddiol am hanes amrywedd fod yn heriol ar brydiau: 'roedd llawer o'r bobl dan sylw ar yr ymylon, yn byw bywydau cudd neu ddim yn cael eu hystyried yn ddigon 'pwysig' i'w cofnodi.
- Ond, gallwn hefyd ddweud llawer wrth edrych ar bwy sy'n absennol o ffynonellau, llyfrau a manau cyhoeddus yn ein hardaloedd, yn ogystal â'r math o iaith sy'n cael ei defnyddio i'w disgrifio a dirmygu.
- Rhaid cofio fod llawer o hanesion am amrywedd yn arddangos croestoriadedd (*intersectionality*) rhwng themâu e.e. hanes rhywedd a hanes LDHTG+.
- Mae pob elfen o hanes amrywedd hefyd yn rhan o hanes ein cynefinoedd, bod hynny'n lleol neu ar blatfform byd-eang.



PENNOD 4:

Hanes Cymru, a'ch hanes chi

► PENNOD 4

Hanes Cymru a'ch hanes chi

Lowri Ann Rees a Mari
Elin Wiliam

Gorolwg

Yn y bennod hon byddwn yn amlinellu dulliau amrywiol y gallwch chi eu defnyddio i archwilio hanesion yn eich cynefinoedd lleol a thu hwnt trwy ddefnyddio tystiolaeth wreiddiol/cynradd h.y. tystiolaeth sydd yn tarddu o gyfnod hanesyddol penodol. I ni fel haneswyr, darganfod ffynonellau cynradd o'r fath yw un o'n prif hoffterau, ac yma byddwn yn rhoi arweiniad mewn pedwar maes. Yn gyntaf, defnyddio Archifau ac Adnoddau Digidol; yn ail sut i gasglu Hanes Llafar ac Atgofion o'r gorffennol; yn drydydd pwysigrwydd edrych ar wrthrychau (*objects*) hanesyddol ac, i gloi, arwyddocâd astudio'r hanes o'n cwmpas ar ffurf Adeiladau a'r Tirwedd (fydd yn adeiladu ar gynnwys Pennod 1).

Adnoddau pellach

Archif Menywod Cymru,
<https://www.womensarchivewales.org/en/>

Deirdre Beddoe, *Out of the Shadows: A History of Women in Twentieth-century Wales* (Caerdydd, 2001).

John Berger, *Ways of Seeing* (1972).

Kirsti Bohata, Steve Thompson et al, *Disability in Industrial Britain* (Manceinion, 2020).

Bywgraffiadur Cymreig/ Dictionary of Welsh Biography: <https://bywgraffiadur.cymru/>
Basdata cynhwysfawr sydd yn rhoi sylw cynyddol i amrywedd o ran yr unigolion sy'n cael eu trafod.

Neil Evans a Charlotte Williams (gol.), *Globalising Welsh Studies: Decolonising History, Heritage, Society and Culture* (Caerdydd, 2024), https://www.uwp.co.uk/app/uploads/9781837721870_WEB.pdf

Gareth Evans-Jones, *'Mae'r Beibl o'n Tu: Ymatebion Crefyddol y Cymry yn America i gaethwasiaeth (1838-1868)* (Caerdydd, 2022).

Eluned Gramich, *'Slwtsh 'Gwraig Tŷ', O'r Pedwar Gwynt*, Haf 2020.

Historical Association, 'Using Historical Sources', <https://www.history.org.uk/student/resource/3211/using-historical-sources>

Timothy W. Jones, 'Reviled, reclaimed and respected: the history of the word 'queer'', *The Conversation*, <https://theconversation.com/reviled-reclaimed-and-respected-the-history-of-the-word-queer-197533>

Daryl Leeworthy, *A Little Gay History of Wales* (Caerdydd, 2019).

Jan Morris, *Conundrum* (1974 a fersiynau diweddarach wedi eu hail-argraffu).

Papurau Newydd Cymru/ Welsh Newspapers Online:

<https://papuraunewydd.llyfrgell.cymru/>

Cofiwch chwilio am dermau Cymraeg a Saesneg i gael amrywiaeth o bapurau newydd, a gellir cyfyngu'r chwiliad i ardaloedd a dyddiadau penodol. Ar hyn o bryd mae'r gronfa'n cynnwys eitemau wedi'u digido o 1804-1919.

Cai Parry-Jones, *The Jews of Wales: A History* (Caerdydd, 2024).

Prifysgol Leicester, *Interpreting Buildings, Gravestones, Monuments and Memorials*, <https://le.ac.uk/history/outreach/besh/historical-sources/interpreting-buildings>

Noreena Shopland, *Forbidden Lives: LGBT stories from Wales* (Pen-y-bont ar Ogwr, 2017).

Tiger Bay and the World, <https://www.tigerbay.org.uk/>

Charlotte Williams, Neil Evans & Paul O'Leary (gol.), *A Tolerant Nation? Revisiting Ethnic Diversity in a Devolved Wales* (Caerdydd, 2015).

1.

Archifau ac Adnoddau Digidol

Mae yna amryw o archifau ar hyd a lled Cymru, yn cynnwys cyfoeth o ffynonellau cynradd wedi eu creu gan bobl a sefydliadau, ac wedi eu hachub neu eu cadw yn bwrpasol yn yr archif. Gellir ddadansoddi deunyddiau yng nghasgliadau archifau mewn amryw o ffyrdd a gallant gyflwyno safbwyntiau gwahanol o'r gorffennol. Mae'r math o ddeunyddiau mewn archifau yn medru amrywio o lawysgrifau i bapurau newydd, gweithredoedd (*deeds*) i ffotograffau, mapiau i recordiadau sain a sgrîn ayyb. Gall ymweld â'r archif eich helpu i ymchwilio hanes eich cynefin a hanes lleol.

Mae *Archives Hub* yn cynnwys disgrifiadau o gasgliadau archifau ar draws y Deyrnas Unedig, ac yn le da i ddechrau chwilio am gasgliadau neu ffynonellau penodol. Mae *Discovery* hefyd yn cynnwys disgrifiadau o ddeunyddiau Yr Archif Genedlaethol (*The National Archives*), yn ogystal ag archifau ar draws y Deyrnas Unedig. Ceir rhestr o wasanaethau archif yng Nghymru, yn ogystal â linc i gatalog arlein *Archives Hub*, ar *Archifau Cymru*.

Ceir archifau sirol, ond hefyd archifau o fewn sefydliadau, gan gynnwys Amgueddfeydd, Prifysgolion, cwmnïau busnes, adeiladau hanesyddol megis plastai, a grwpiau cymunedol, i enwi ond rhai enghreifftiau.

Mae gan nifer o'r archifau wefannau, sy'n le da i ddechrau eich ymchwil. Yma gellir canfod fwy o wybodaeth am yr archifau, oriau agor a'r gwasanaethau maent yn eu cynnig. Mae gan rhai archifau gatalogau ar-lein a gallwch chwilio am unrhyw gasgliadau neu ddeunyddiau penodol. Ond mae'n werth cadw mewn cof mae, yn aml, dim ond rhan o'r casgliadau sydd wedi'u catalogio ar-lein, gyda chatalogau pellach mewn print neu ar gyfrifiadur yn yr archifdy.

Pan yn ymweld â'r archifdy, mae angen bod yn amyneddgar. Gall gymryd cryn dipyn o amser i chi chwilio trwy'r catalogau am ddeunyddiau. Cofiwch fod yn barod i weld potensial yr

archif. Wrth ymchwilio, efallai dewch ar draws ffynonellau newydd a diddorol fydd yn cynnig dehongliadau gwahanol, ond hefyd, cadwch mewn cof gyfyngiadau'r archif. Efallai na fyddwch yn medru canfod yr union beth yr ydych yn chwilio amdano, felly mae'n bwysig bod yn hyblyg a bod yn barod i addasu eich cynlluniau ymchwil.

Ar eich ymweliad â'r archif, ewch â llyfr nodiadau neu phapur a phensel gyda chi. Cymrwch nodiadau llawn o'r ffynhonnell, gan gynnwys manylion megis rhif y casgliad a disgrifiad llawn. Mae nifer o archifau nawr yn caniatáu tynnu lluniau, felly mae'n bwysig cadw nodiadau fel eich bod yn medru cysylltu eich lluniau gyda'ch nodiadau. Ond cyn dechrau tynnu lluniau, mae'n bwysig gael caniatâd a thrafod materion hawlfraint. Mae'n debygol bydd angen llenwi ffurflenni caniatâd ac efallai talu ffi (bydd hyn yn amrywio o archif i archif). Cofiwch bod y lluniau yma ar gyfer eich defnydd personol, ac os ydych am ddefnyddio unrhyw ddelweddau mewn gwaith, boed ar bapur neu ar-lein, mae rhaid gofyn caniatâd gan yr archif cyn gwneud hynny.

Wrth drefnu ymweliad â'r archif, neu yn ystod eich ymweliad, cofiwch fod staff yr archif yna i'ch helpu. Mae'r archifydd wedi ei hyfforddi yn arbennig i ymdrin â'r casgliadau, ac yn wybodus iawn am gynnwys a natur y casgliadau. Peidiwch â bod ofn eu holi nhw os oes gennych unrhyw gwestiynau. Gallwch e-bostio cyn eich ymweliad i holi am y casgliadau, ac i weld os ydy'r deunydd penodol yr hoffech ei astudio ar gael. Os mai hwn fydd eich ymweliad cyntaf i'r archif, cofiwch ddweud hynny – bydd staff yr archif yn medru eich cyngori ymhellach am eich ymweliad cyntaf.

Gyda'r datblygiadau mewn technoleg, a'r galw cynyddol i ehangu mynediad i archifau, mae nifer o gasgliadau wedi, neu yn y broses, o gael eu digideiddio. Gellir canfod nifer o ffynonellau cynradd ar-lein erbyn hyn, sy'n golygu y gallwch astudio'r deunyddiau yma o adre, heb orfod teithio i'r archif. Trwy wefan y *Llyfrgell Genedlaethol* yn Aberystwyth, gellir chwilio cronfa ddata *Papurau Newydd Cymru*, lle mae 15 miliwn o erthyglau papurau newydd Cymraeg a Saesneg Cymru rhwng 1804 a 1919 wedi eu

digideiddio. Mae amgueddfeydd yn gynyddol rhannu delweddau o'u casgliadau e.e. gellir chwilio casgliadau *Amgueddfa Cymru* ar-lein a gweld delweddau o ffynonellau gweledol a gwrthrychau heb orfod gadael eich cartref.

Tu hwnt i'r archifau, mae cyfleon pellach i ymgymryd â ymchwil hanes ar-lein. Trwy'r cyfryngau cymdeithasol, gellir cysylltu ag eraill sy'n ymchwilio, neu sydd â diddordeb yn yr un maes â chi. Mae grwpiau cyfryngau cymdeithasol, megis grwpiau Facebook, yn fforwm i rannu hanesion, lluniau ayyb am hanes lleol. Gellir hefyd bostio cwestiwn neu apêl am wybodaeth benodol ar y grwpiau yma, gydag aelodau yn aml yn awyddus iawn i helpu.

2. Hanes Llafar ac Atgofion

Gellid dadlau mai hanesion llafar oedd y mathau cynharaf o hanes, gyda'r hanesydd Thucydides, oedd yn fyw yn y 5ed ganrif cyn-Crist, yn nodi fod atgofion llygad-dystion yn rhai holl-bwysig i ail-greu'r gorffennol. Gyda datblygiadau technolegol mewn dyfeisiadau recordio wedi'r Ail Ryfel Byd daeth cofnodi atgofion pobl yn broses llawer rhwyddach, ac yn 1973 sefydlwyd y *Gymdeithas Hanes Llafar* ym Mhrydain. Mae'n werth edrych ar eu gwefan am adnoddau a chanllawiau defnyddiol. Cynhelir llawer o broiectau hanes llafar diddorol yng Nghymru, ac mae *Amgueddfa Cymru'n* storfa ddefnyddiol o lawer ohonynt.

Y pwynt pwysig gyda hanes llafar yw ei fod yn ddull o arddangos fod profiadau unigolion yn bwysig. Ychydig iawn o bobl sydd yn gadael bwndeli o ddyddiaduron manwl am eu bywydau neu'n cyhoeddi hunangofiannau, felly mae hanes llafar yn fodd arwyddocaol o gofnodi bywyd bob-dydd a dangos fod gwerth i atgofion pawb. Efallai fod ganddoch aelodau o'r teulu sy'n aml yn sôn am fod yn rhan o Streic y Glöwyr yn 1984/85 neu sydd â straeon melys o fynychu rêfs (*raves*) yn y 1990au: os felly, dyma'r adeg i'w cyfweld a sicrhau fod eu hatgofion yn goroesi i genedlaethau (*generations*) yn y dyfodol.

Y Broses...

1 Hel Atgofion: Mae yna gymaint o botensial o ran canfod pobl i'w cyfweld. Gallwch holi aelodau o'ch teulu, cymdogion a ffrindiau, gan yna ddefnyddio'r dechneg caseg eira (*snowball effect*) i ganfod mwy o unigolion â straeon diddorol. Golyga hynny'ch bod yn gofyn i bobl y byddwch yn eu cyfweld os oes ganddyn nhw awgrymiadau am bwy arall i'w holi. Gellir hefyd ddefnyddio grwpiau cymunedol a chymdeithasau hanes lleol ar y cyfryngau cymdeithasol i ymholi os oes gan bobl ddiddordeb cael eu cyfweld ganddoch. Mae'r opsiynau'n ddi-ben-draw!

2 Moeseg a chaniatâd: Mae gan bawb stori i'w rhannu, ond gall rhai unigolion deimlo'n swil iawn o gael eu cyfweld a'u recordio: nid yw pawb yn gyfforddus gyda hynny. Os felly, mae'n bwysig peidio rhoi gormod o bwysau ar bobl i fod yn rhan o'ch ymchwili: efallai, er enghraifft, y byddai rhai'n fwy cyfforddus yn ateb eich cwestiynau yn ysgrifenedig trwy e-bost neu hyd yn oed ar bapur. Dylech hefyd osgoi cyfweld pobl sy'n fregus yn feddylol ac, os ydych yn cyfweld pobl ifanc o dan 18-oed, bydd angen i chi gael caniatâd eu rhieni/gwarchodwyr. Fodd bynnag, unwaith y byddwch wedi trefnu cyfweliad, y cwbl sydd angen gwneud wedyn ydy sicrhau fod y person a gyfwelir yn llofnodi Ffurflen Gydsynio i Gyfranogwyr (Gweler enghraifft yn Ffigwr 3) fel na fydd unrhyw gamddealltwriaeth am eich ymchwil yn codi'n ddiweddarach.

3 Paratoi: Cyn cyfweld unrhyw un am eu hatgofion mae'n bwysig iawn paratoi. Gofynnwch o flaen llaw am fanylion sylfaenol byr am y person os nad ydych yn eu gwybod yn barod h.y. dyddiad geni; lle gawsant eu magu; teulu; gwaith a diddordebau. Yna, ceisiwch feddwl beth yr hoffech ei ddysgu ganddynt e.e. os oedden nhw yn eu harddegau yn y 1980au, beth oedd eu hatgofion nhw o'r Prif Weinidog Ceidwadol Margaret Thatcher a'i heffaith ar eu hardal leol? Gallai hynny olygu'ch bod yn dysgu am hanes cyfnodau penodol cyn y cyfweliad fel eich bod yn medru cael sgwrs ddefnyddiol. Gall y cyfweliad fod ar ffurf hanes holl-fywyd y person (*life-history*) neu mi all ganolbwyntio ar agwedd benodol, megis eu diddordeb mewn pêl droed, yr amgylchedd neu hyd yn oed anifeiliaid anwes! Ystyriwch hefyd lle y byddwch yn cyfweld: fydd hynny yng nghartref y person? Eich cartref chi? Mewn caffi? Yn yr awyr agored? Ar-lein?

4 Recordio: Os yw'r cyfwelai (*interviewee*) wedi rhoi caniatâd i chi eu recordio, yna sicrhewch fod eich offer yn gweithio ac wedi'u llwytho'n llawn (*charged*) o flaen llaw. Tra gellir defnyddio *dictaphone* arbenigol, erbyn hyn mae apiau ar ffonau symudol yn cynnig opsiynau hygyrch a hwylus. 'Da ni wedi canfod yn y gorffennol fod yr ap *Alice* yn un da ar gyfer cyfweliadau, ond, mewn gwirionedd, gellir defnyddio unrhyw ap recordio llais. Os ydych yn cynnal y cyfweliad ar-lein (megis ar *Teams* neu *Zoom*) yna mae opsiynau recordio o fewn y rhaglenni hyn. Os na fyddwch yn recordio, cofiwch fynd â gliniadur neu bapur a beiro i ysgrifennu nodiadau yn ystod y cyfweliad fel eich bod yn medru troi atynt wedyn.

Enw'r Ymchwilydd:

Mae'r ymchwilydd a enwir uchod wedi rhoi gwybodaeth ddigonol i mi am yr ymchwil rwyf wedi gwirfoddoli i gymryd rhan ynddo. Deallaf fod gennyf yr hawl i dynnu'n ôl o'r ymchwil ar unrhyw adeg. Deallaf hefyd y caiff fy hawl i fod yn ddienw a'm hawl i gyfrinachedd eu parchu.

Rwy'n cytuno i'r cyfweiliad gael ei recordio. (dilëwch/newidiwch fel bo'r angen)

Llofnod Y Cyfranogwr: Dyddiad:

Darperir dau gopi o'r ffurflen hon.

Dylai'r cyfranogwr gadw un copi a dylai'r ymchwilydd gadw'r copi arall.

5 Y Cyfweiliad: Efallai y byddwch ychydig yn nerfus yn mynd i'r cyfweiliad, yn arbennig os nad ydych yn adnabod y person yn dda. Cofiwch hefyd, er hynny, y gall y cyfwelai fod yn hyd yn oed mwy pryderus, felly'r dasg gyntaf yw sgwrsio'n anffurfiol (mae'r tywydd wastad yn bwnc da!) i geisio cael pawb i ymlacio cyn cychwyn recordio/cofnodi. Tra mae'n ddefnyddiol cael 'map' o'r trywydd a'r cwestiynau yr hoffech i'r cyfweiliad ei ddilyn, peidiwch â bod yn rhy gaeth i hwn. Mae'r cyfweiliadau gorau yn deillio o gyfwelydd sydd yn gwrando'n astud, yn dangos diddordeb ac yn holi ymhellach am bwyntiau difyr sydd wedi'u mynegi gan y cyfwelai (nid cyfwelydd sydd yn gyson yn edrych i lawr ar bapur neu draw oddi wrth y person). Yr arddull gaiff ei argymhell i gyfweiliad hanes llafar yw sgwrs: cofiwch nad cynnal holiad (*interrogation*) gan yr heddlu ydych chi! Os ydy'r cyfwelai'n nodi rhywbeth anghywir (e.e. dweud fod Charles wedi'i Arwisgo yn Dywysog Cymru yn 1959 nid 1969) peidiwch â'u cywiro. Mae hynny'n medru tanseilio hyder y cyfwelai a dinistrio llif y drafodaeth. Cofiwch mai pwrpas y cyfweiliad ydy casglu atgofion am y gorffennol: gellir canfod ffeithiau hanesyddol mewn mannau eraill. Mae'n well hefyd fel cyfwelydd i beidio â gor-siarad: rhowch ofod i'r cyfwelai hel atgofion, ac os ydynt yn cael ysbaid heb siarad (*pause*) peidiwch â rhuthro i lenwi'r tawelwch. Mae'n debygol iawn mewn sefyllfa o'r fath eu bod angen amser i bendroni a meddwl. Gall y cyfweiliad fod yn fyr, tua 15 munud, neu fe all fod yn rhai oriau.

6 Wedi'r cyfweiliad: Mae wastad yn syniad da ysgrifennu at y cyfwelai wedyn i ddiolch iddynt am eu hamser (hyd yn oed os ydych eisoes wedi diolch ar ddiwrnod y cyfweiliad mewn person): mae'n dangos parch tuag atynt. Cofiwch storio'r recordiad neu'ch nodiadau yn ddiogel, efallai ar storfa yn y cwmwl, gan ei bod yn rhwystredig iawn dileu cyfweiliad hir trwy gamgymeriad! Mae rhai pobl yn hoffi trawsgrifio (*transcribe*) eu cyfweiliadau yn llawn (ac mae Apiau Dealltwriaeth Artiffisial i helpu efo hyn bellach, er nid mor hwylus yn Gymraeg), ond mae'n well gan eraill wrando'n ôl a chofnodi pwyntiau neu ddyfyniadau arwyddocaol, ac nid y cyfweiliad cyfan. Wrth ail-wrando ar y cyfweiliad, pendronwch sut mae'r person yn cyfleu eu cynefinoedd gwahanol: y lleol, y cenedlaethol a'r byd-eang.

3. Gwrthrychau

Gall astudio gwrthrychau a phethau gyflwyno persbectifau gwahanol o'n gorffennol, a chynnig mewnwelediadau tu hwnt i ffynonellau mwy traddodiadol ysgrifenedig. Mae astudio diwylliant materol (*material culture*) yn gallu taflu goleuni dros hanes ein cynefin.

Mae'r broses o ddadansoddi gwrthrychau yn medru bod yn go wahanol hefyd, yn golygu bod angen gofyn cwestiynau ychydig yn wahanol. Fel arfer, lle da i ddechrau wrth ddadansoddi gwrthrych yw ystyried sut y cafodd ei greu ac ym mhle; sut oedd yn cael ei ddefnyddio; pwy oedd yn berchen ar y gwrthrych a ble mae'r gwrthrych nawr? Yn ehangach, gellir meddwl am ba hanesion mae'r gwrthrych yn caniatáu i ni archwilio.

Pan yn defnyddio gwrthrychau i astudio'r gorffennol, y man cychwyn yw canfod ble i chwilio am wrthrychau. Mae amgueddfeydd, galeriau, a thai hanesyddol yn enghreifftiau amlwg o lefydd y gallwch ymweld â nhw i weld gwrthrychau. Os oes gennych syniad clir o'r math o wrthrychau yr hoffech astudio, gellir chwilio am wrthrychau penodol trwy gatalogau arddangosfeydd, a hefyd catalogau casgliadau ar-lein e.e. arddangosfeydd ar-lein a gwefannau penodol (hyd yn oed *Ebay*!). Yn aml, bydd rhain yn cynnwys delwedd a disgrifiad o'r eitem.

Cymrwch fel enghraifft eitem o *Gasgliad y Werin*, gwefan sydd yn dod â threftadaeth Cymru at ei gilydd drwy rannu eitemau o sefydliadau cenedlaethol, amgueddfeydd, archifau, llyfrgelloedd, grwpiau cymunedol ac unigolion. Mae Cragen Beca yn esiampl prin o wrthrych sy'n gysylltiedig gyda hanes Terfysgoedd Merched Beca yn ne-orllewin Cymru yn ystod y 1830au a'r 1840au. Mae stori deuluol yn sôn bod y gragen dro (*conch shell*) wedi ei defnyddio yn ardal Talog, Sir Gaerfyrddin, fel corn er mwyn galw Merched Beca ynghyd i brotestio.



Llun: Darlun ddychmygol o Ferched Beca wnaeth ymddangos yn yr *Illustrated London News* (1843). © [Wikimedia Commons](#).

Mae stori Cragen Beca felly wedi plethu gyda hanes teuluol. Mae'n debyg i'r gragen gael ei chuddio gan y teulu, tan yn hwyrach, ac mae nawr yng nghasgliad Amgueddfa Sir Gaerfyrddin. Mae hyn yn tanlinellu'r ffaith bod hefyd drysorau adref, a does dim o reidrwydd rhaid mynd i amgueddfa i weld eitemau o bwysigrwydd hanesyddol. Gall gwrthrychau gael eu pasio i lawr y cenedlaethau, pethau dydd-i-ddydd sy'n medru adrodd hanesion am ein cynefin. Mae'r ffaith bod yr eitemau yma wedi eu cadw trwy'r cenedlaethau yn dweud llawer wrthym am werth yr eitem. Roedd eu perchenogion yn amlwg wedi gweld arwyddocâd yn y gwrthrych, oedd yn golygu rhywbeth iddynt, cyn mynd ati i'w gadw. Mae'r gwrthrychau yma yn actio fel dolenni rhwng y gorffennol a'r presennol, yn bwyntiau cyswllt gyda'r cenedlaethau a fu.

Fel enghraifft arall, ymysg hen greiriau fy nheulu i (Lowri Ann Rees) mae medal fy hen hen wncwl a fu farw yn ystod y Rhyfel Byd Cyntaf. Wrth ymchwilio ymhellach, fe wnaethom ganfod mai Medal Buddugoliaeth (*Victory Medal*) oedd hon, wedi ei gwobrwyo am wasanaeth yn un o feysydd y gad gweithredol yr ymgyrch filwrol rhwng 5 Awst 1914 a 11 Tachwedd 1918. Ar un wyneb ceir delwedd 'Victory' yn dal cangen palmwydden (*palm branch*), sy'n dynodi buddugoliaeth. Ar y wyneb arall, ceir y geiriau 'The Great War for Civilization 1914-1919' wedi amgylchynu gan dorch llawryf (*laurel wreath*), symbol arall o fuddugoliaeth.



Lluniau: Medal Buddugoliaeth (Victory medal) 1914-1919.
© Lowri Ann Rees.

Ar ochr y fedal, ceir enw fy hen hen wncwl, gyda'i reng (*rank*), rhif gwasanaeth (*service number*) ac uned (*unit*). Gyda'r wybodaeth yma, roedd yn bosib chwilio cofnodion y Commonwealth War Graves Commission ar-lein i ganfod mwy am ei ffawd, gan gynnwys pryd fu farw, ei oed, a'r ffaith ei fod wedi ei goffáu yn Ffrainc ar Gofgolofn Vimy. Codwyd y gofgolofn i goffáu'r milwyr o Ganada bu farw yn Ffrainc, gyda fy hen hen wncwl yn ymddangos arni am iddo fudo yna o Gymru. Mae'r enghraifft yma'n tanlinellu'r potensial mewn un gwrthrych, a'r trywydd ymchwil pellach a'r themâu ehangach sy'n medru datblygu. Yn aml, mae gwrthrychau yn fan cychwyn taith ymchwil.

Mae gwrthrychau hanesyddol o'n cwmpas, o siopau hen greiriau a siopau elusen i werthiannau cistiau ceir, neu hyd yn oed mewn atig. Gallwn fynd ati i archwilio hanesion y gwrthrychau yma, a thrwy hynny, ganfod mwy am hanes ein hardal lleol.

4. Adeiladau a'r Tirwedd

Fel y darlunnir gan Leona Huey ym Mhennod 1, un o'r prif elfennau sy'n diffinio'n cynefinoedd lleol yw'r adeiladau a'r dirwedd o'n cwmpas. Yn wir, mae'n hawdd cymryd y rhain yn ganiataol, yn arbennig os ydym yn eu gweld o ddydd-i-ddydd. Fodd bynnag, mae'r tirlun yn medru dylanwadu ar gymdeithas a'r ffordd o fyw: meddyliwch am dwf trefi ymwelwyr fel y Rhyl neu Borthcawl oherwydd presenoldeb arfordir hardd, môr a thraeth. Gall pobl a diwydiant hefyd newid y tirlun: un o'r enghreifftiau amlycaf o hyn yng Nghymru oedd lledaeniad y diwydiant glo a'r chwareli llechi yn ystod y 18fed a'r 19eg ganrif. Er fod llawer o bobl yn hoffi'r syniad o gadwraeth (*preservation*) tirlun, y gwir amdani, trwy gydol hanes, yw fod gorgyffwrdd rhwng y byd naturiol a phobl wedi newid edrychiad a phwrpas nifer o lefydd. Dyma faes lle mae hanes, archaeoleg a daearyddiaeth yn cyfuno o ddifrif.

Y ffordd orau i gychwyn chwilota'r tirlun ydy edrych pa adeiladau sydd yn eich cymuned leol a chwestiynu eu symboliaeth. Ydy'ch ardal chi yng nghysgod castell mawr o'r Canol Oesoedd fel yng Nghaernarfon? Beth mae hynny'n ei ddatgelu am ei harwyddocâd mewn perthynas â goresgyniadau hanesyddol o Gymru? Oes yna lawer o gapeli neu gyn-gapeli wedi'u haddasu yn dai neu'n siopau? Beth mae hynny'n ei awgrymu am rôl crefydd a gweddnwidiadau cymdeithasol yn eich bro?



Llun: Golygfa i gyfeiriad Tre'r Ceiri. © [Wikimedia Commons](#)

Craffwch yn fanwl hefyd ar y tirlun o'ch cwmpas, gan y gallai nodweddion fel bryniau a mynyddoedd ymgorffori awgrymiadau am sut oedd pobl yn byw ymhell yn y gorffennol, hyd yn oed mewn cynhanes (*prehistory*). Er enghraifft, mae bryngaer (*hillfort*) Tre'r Ceiri ym Mhen Llŷn (uchod) yn dyddio'n ôl nifer o filenia i'r Oes Haearn, ac mae tystiolaeth ei bod wedi parhau mewn defnydd yn agos i ddiwedd cyfnod y Rhufeiniaid, yn y 4ydd ganrif wedi Crist. Mae bryngeiri o'r fath i'w gweld mewn nifer o rannau o Gymru.

Ystyriwch hefyd beth sy'n 'naturiol' yn y tirlun a beth sy'n 'artiffisial': mae'r cwestiwn weithiau'n fwy cymhleth nac yr ymddangosa ar yr olwg gyntaf. Er enghraifft, ystyriwch Atomfa Niwclear Trawsfynydd (Llun ar y dde), a gychwynnodd gynhyrchu trydan yn 1965, ac sydd bellach yn cael ei dadgomisiynu. I'r mwyafrif o bobl, mae'n hawdd dod i'r casgliad fod yr adeiladau concrid mawr oedd yn cartrefu'r adweithyddion niwclear (*nuclear reactors*) yn rannau 'artiffisial' o'r tirlun, ac yn bethau annisgwyl i'w gweld ar ffiniau Parc Cenedlaethol Eryri. Fodd bynnag, gan ein bod yn *disgwyl* gweld llynnoedd mewn ardaloedd gwledig a mynyddig, mae'r llyn cyfagos, Llyn Trawsfynydd, yn cael ei ystyried yn nodwedd mwy 'naturiol'. Ond, pobl a pheirianeg oedd yn gyfrifol am greu y llyn hefyd, gan ei fod yn argae a adeiladwyd yn y 1920au i ddarparu cyflenwad dŵr i Orsaf Trydan-Dŵr newydd, nid nepell i ffwrdd, ym Maentwrog.



Llun: Atomfa Trawsfynydd. [Assets Wales](#) © Crown Copyright

Gwelir elfen gyffelyb hefyd gyda Llyn Celyn ger y Bala. I lawer o dwristiaid sydd yn pasio heibio'r tirnod yma y cwbl sydd i'w weld yw corff mawr o ddŵr digon atyniadol a naturiol yr olwg. Ond, mewn realiti, cysylltir y llyn yma gyda'r gair emosiynol 'Tryweryn'. O dan ddyfroedd y llyn mae adfeilion pentref bychan Capel Celyn a gafodd ei wagu yn ystod y 1950au hwyr a'r 1960au cynnar er mwyn adeiladu cronfa ddŵr ar gyfer dinas Lerpwl. Mae argyfwng Tryweryn yn cyfleu'r berthynas llawn tensiwn all fodoli rhwng tirwedd, ymyrraeth pobl a chenedlaetholdeb yng Nghymru. Er mai Tryweryn sy'n cael ei gofio, mae nifer o gronfeydd dŵr ar draws ac ar led y wlad yn celu cartrefi a chymunedau gafodd eu disodli gan argaeon: tybed oes un yn eich ardal chi?

Weithiau gall adeiladau a thirwedd gymryd blynyddoedd maith i newid, ond mae addasiadau eraill i'r tirlun yn medru bod yn chwim a byrhoedlog. Enghreifftiau defnyddiol o hyn yw graffiti a murluniau. Gall graffiti newydd ymddangos dros nos, mewn ardaloedd gwledig a threfol, ac mae'n cyfleu llawer am hunaniaethau pobl: o pwy ma nhw'n ei garu i beth mae nhw eisiau ei newid. Mae recordio graffiti lleol yn medru bod yn weithgaredd hynod o ddiddorol, yn arbennig gan fod rhai mathau o ddyluniadau'n coffau'r gorffennol, e.e. 'Cofiwch Dryweryn' (tudalen nesaf) neu'r llythrennau 'FWA', sy'n cyfeirio at y *Free Wales Army*, grŵp cenedlaetholgar o'r 1960au.



Llun : Graffiti/ Murlun Cofiwch Dryweryn, Llanrhystud, yn 2018. © Lowri Ann Rees.

Mae gan furluniau berthynas agos iawn â graffiti o ran eu bod yn weithiau celf sy'n medru meddiannu lleydd cyhoeddus, ond fel arfer mae murluniau yn fwy swyddogol na graffiti. Efallai fod murlun wedi'i gomisiynu gan artist penodol neu i ddathlu balchder lleol, fel yn yr enghraifft isod yn Wrecsam a grëwyd i gyd-fynd â chyfres ddogfen Disney+ 'Welcome to Wrexham'.



Llun: Murlun 'Welcome to Wrexham' yn 2023. [Assets Wales](#). © Crown Copyright

Os hoffech chi dyrchu ymhellach i adeiladau a thirnodau yn eich ardal chi, yna mae'n werth chwilio trwy wefan [Coflein](#), sydd yn gatalog o safleoedd archaeolegol, adeiladau a threftadaeth ddiwydiannol a morwrol yng Nghymru. Gallwch hefyd chwilio am wybodaeth am ganfyddiadau archaeolegol ar wefan gynhwysfawr [Heneb](#), ac mae safle [Cadw](#) yn rhoi gorolwg dda o'r amgylchedd hanesyddol yng Nghymru. Yn fwy na dim, mwynhewch astudio'ch cynefin lleol a'i blethu gyda chynefinoedd byd-eang.


Adnoddau treftadaeth defnyddiol i astudio'ch cynefin

Casglwyd gan Leona Huey

- **Coflein:** Adnodd yw Coflein a gynhyrchwyd gan Gomisiwn Brenhinol Henebion Cymru. Bydd eu map rhyngweithiol yn eich helpu i ddod o hyd i safleoedd o ddiddordeb yn eich ardal.
- **Archwilio:** Mae Archwilio yn fap rhyngweithiol a gynigir gan Gofnod Amgylchedd Hanesyddol Cymru. Yma byddwch yn gallu dod o hyd i safleoedd yn eich ardal, gan ddefnyddio hidlwyr i ddod o hyd i safleoedd o fath neu gyfnod penodol.
- **Cadw:** Mae gan Cadw gyfoeth o wybodaeth am yr amgylchedd hanesyddol. Mae eu gwefan yn cynnig adnoddau megis teithiau rhithwir o amgylch rhai safleoedd, gwybodaeth am henebion a safleoedd hanesyddol a gwybodaeth am dirlun hanesyddol eich ardal.
- **Digimap Edina:** Mae Digimap yn cynnig amrywiaeth o fapiau OS hanesyddol a all eich helpu i olrhain newidiadau yn eich tirwedd leol yn uniongyrchol. Mae Digimap yn wasanaeth tanysgrifio ond efallai bod eich ysgol neu sefydliad eisoes yn aelod.

Cipolwg o'r Bennod

- Un o'r pethau gorau am ddysgu hanes eich cynefin ydy gwneud hynny trwy ymchwilio eich hun i ffynonellau gwreiddiol (*primary sources*).
- Mae hanes a threftadaeth o'n cwmpas ym mhobman: mewn archifau, ar-lein, yng nghof pobl, mewn gwrthrychau yn ein hatig, yn siâp y tirlun ac mewn pethau fel graffiti a murluniau.
- Mae'r bennod yma'n rhoi canllawiau ar sut y gallwch chi gasglu a chofnodi gwahanol fathau o hanes a pha adnoddau sy'n eich helpu i weld y gorffennol yn gliriach.





PRIFYSGOL
BANGOR
UNIVERSITY



**COLEG CYMRAEG
CENEDLAETHOL**